Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cod Ymarfer Gorau

Chwefror 2022

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | **5** |
| **2** | **Cod Ymarfer Gorau i Aelodau** | **7** |
| | Cyfrifoldebau Corfforaethol Aelodau'r Cyngor | 7 |
| | Cyfrifoldebau Aelodau Unigol o'r Cyngor | 9 |
| | Cydnabyddiaeth ariannol, Treuliau a Buddion Ariannol eraill. | 12 |
| | Lletygarwch a Rhoddion | 13 |
| | Gwrthdaro buddiannau | 14 |
| | Bod yn agored ac yn ymatebol | 14 |
| | Perthnasoedd ag aelodau o'r staff | 15 |
| | Dirprwyo cyfrifoldeb | 15 |
| **3** | **Cod Ymarfer Gorau i Gyflogeion Cyngor Celfyddydau Cymru** | **16** |
| | Atebolrwydd | 17 |
| | Cyfrifoldebau a gweithgareddau'r Prif Weithredwr | 17 |
| | Ansawdd gweinyddu | 18 |
| | Mynediad at wybodaeth | 19 |
| | Ymdrin â cheisiadau am grantiau | 19 |
| | Perthnasoedd ag aelodau | 20 |
| | Didueddrwydd a chysylltiadau â chyrff allanol | 20 |
| | Uniondeb | 22 |
| | Lletygarwch a Rhoddion | 22 |
| | Defnyddio adnoddau | 23 |
| | Gwybodaeth swyddogol | 23 |
| | Ymgynghorwyr, contractwyr a gweithwyr dros dro eraill | 23 |
| | Datgelu er budd y cyhoedd (Polisi Chwythu'r Chwiban) | 23 |
| | Ar ôl gadael cyflogaeth | 24 |
| **4** | **Gweithdrefnau ar gyfer rhoi egwyddorion y Cod ar waith** | **25** |
| | Mynediad at Wybodaeth | 25 |
| | Ymdrin â cheisiadau am gymorth ariannol | 25 |
| | Defnyddio cyfryngau cymdeithasol | 26 |
| | Cwynion yn erbyn aelodau neu gyflogeion Cyngor Celfyddydau Cymru | 28 |
| | Pwyllgorau Cyngor y Celfyddydau | 28 |

5 Cyfeiriadau 30
**Atodiad A** **31**
Cynllun cyhoeddi enghreifftiol **31**
**Atodiad B** **35**
Egwyddorion Nolan – Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus 35
**Atodiad C** **36**
1. Polisi Cofrestru a Datgan Buddiannau 36
2. Cofrestru buddiannau. 36
3. Cymryd rhan mewn Cyfarfodydd. 38
**Atodiad D** **40**
Dirprwyo Awdurdod gan y Cyngor i'w Bwyllgorau ac i Grwpiau sy'n Gwneud Penderfyniadau, gan gynnwys Grwpiau Swyddogion a'r Cydweithwyr Celfyddydol 40
1. Awdurdod 40
2. Cyfrifoldebau'r Cyngor 40
3. Cyfrifoldebau Pwyllgorau a Grwpiau Gwneud Penderfyniadau 41
4. Swyddogion 42
**Atodiad E** **44**
Arweiniad i Staff – Lletygarwch a Rhoddion 44
1. Lletygarwch 44
2. Rhoddion 45
**Atodiad F** **46**
Cyngor Celfyddydau Cymru – Y Weithdrefn Gwyno 46
Cyflwyniad 46
Beth allaf gwyno amdano? 46
Yr hyn na allwch gwyno amdano 47
Sut ydw i'n gwneud cwyn? 47
Pryd fyddaf i'n clywed gennych chi? 48
Ffyrdd eraill o wneud cwyn 49
Eich gwybodaeth bersonol 51
Cyfle Cyfartal 51
Sylwadau ac awgrymiadau 52
Cysylltu 52
Comisiynydd y Gymraeg 52
Y Comisiynydd Gwybodaeth 52
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 53

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru (Cyngor y Celfyddydau) yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (WGSB) ac yn elusen gofrestredig. Caiff aelodau ein Cyngor eu penodi gan Lywodraeth Cymru ac maent yn gyfrifol iddi. Mae'r Cod Ymarfer Gorau hwn yn nodi'r safonau sy'n ofynnol inni – ac y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl – i bawb sy'n ymwneud a'n busnes. Mae hyn yn cynnwys aelodau'r Cyngor, aelodau ei Bwyllgorau, Cydweithwyr Celfyddydol, a'n staff.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn esbonio sut rydym yn gwneud hyn ac yn disgrifio'r safonau sy'n ofynnol i bawb sy'n gweithio i Gyngor y Celfyddydau neu gydag ef.

Cawsom ein sefydlu trwy Siarter Frenhinol gyda'r amcanion canlynol:

a) datblygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a'u hymarfer;

b) cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;

c) cynghori a chydweithio â Llywodraeth Cymru, Adrannau ein Llywodraeth, awdurdodau lleol, Cynghorau Celfyddydau Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chyrff eraill ar faterion yn ymwneud â'r amcanion yn (a) a (b) uchod; a

d) cyflawni'r amcanion trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

1.2 Rydym yn gweinyddu arian cyhoeddus yng Nghymru. Wrth wneud hynny, fe fyddwn bob amser:

- yn cadw at y safonau uchaf o ran diduedddrwydd, uniondeb a gwrthrychedd wrth stiwardio arian cyhoeddus a rheoli'r cyrff dan sylw;
- yn cadw at fuddiannau bod yn agored a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gan gydymffurfio â phob cais rhesymol am wybodaeth
- yn atebol i Lywodraeth Cymru, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y Comisiwn Elusennau, a defnyddwyr gwasanaethau, dinasyddion unigol a staff am ein gweithgareddau, ein rheolaeth ar arian cyhoeddus a'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein hamcanion allweddol a'n targedau perfformiad cysylltiedig
- yn ymddwyn mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus, gan gynnwys hyrwyddo llywodraethu da, tryloywder a gwerth am arian

- yn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu yn y modd mwyaf effeithlon, effeithiol a darbodus gyda'r adnoddau sydd ar gael

- yn ymateb yn gadarnhaol i graffu annibynnol lle bynnag y bo'n ymarferol (bosibl).

1.3 A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru cawn ein cynorthwyo gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn atebol iddi. Cawn arian gan Lywodraeth Cymru trwy gymorth grant ac rydym yn atebol i Lywodraeth Cymru am ein gwariant. Mae telerau ac amodau'r arian hwn wedi eu nodi mewn dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru.

1.4 Ni hefyd sy'n dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol i'r celfyddydau yng Nghymru. Dyrennir arian y Loteri i ni gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r fframwaith polisi ac ariannol yr ydym yn gweithredu ynddo fel dosbarthwr derbyniadau'r Loteri Genedlaethol wedi'i nodi yn nwy Ddeddf y Loteri ac mewn Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

1.5 Polisi'r Cyngor yw cyflawni ei waith yn unol â'r safonau uchaf o uniondeb, effeithlonrwydd a bod yn agored. Mae'r polisi hwn wedi'i nodi yn y Cod Ymarfer Gorau hwn.

1.6 Cyhoeddir y Cod hwn ar ein gwefan. Mae darpariaethau'r Cod yn rhan o'r broses sefydlu i bob aelod o'r Cyngor, ei Bwyllgorau a'r Cydweithwyr Celfyddydol, ac i'r holl aelodau o'r staff.

1.7 Hefyd gellir gofyn am gopïau o'r Cod, yn rhad ac am ddim, trwy gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod

Ffôn: 03301 242733

SMS: 07797800504

e-bost: Governance@arts.wales

gwybodaeth@celf.cymru

Gwefan: www.arts.wales

www.celf.cymru

## 2 Cod Ymarfer Gorau i Aelodau

2.1 Mae'r rhan hon o'r Cod yn berthnasol i aelodau'r Cyngor, aelodau ein Pwyllgorau, Cydweithwyr Celfyddydol ac i'r holl unigolion eraill a all ein cynorthwyo trwy gynghori neu wirfoddoli.

2.2 Yn y Cod drwyddo draw, mae'r gair "aelodau" yn cyfeirio at yr holl grwpiau uchod, oni nodir yn wahanol.

2.3 Mae'n ofynnol i'r holl aelodau gadw at ei delerau. Caiff unrhyw achosion posibl neu wirioneddol o dorri'r Cod eu trafod gyda Chadeirydd y Cyngor a gallant arwain at gais am i'r aelod ymddiswyddo. Hefyd rhoddir i'r aelodau gopïau o ddogfennau sy'n briodol i'w rôl.

2.4 Hefyd rhoddir i aelodau'r Cyngor "Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru gyda Chyngor y Celfyddydau".

### Cyfrifoldebau Corfforaethol Aelodau'r Cyngor

2.5 Mae gan aelodau'r Cyngor gyfrifoldeb corfforaethol am sicrhau bod Cyngor y Celfyddydau yn cydymffurfio â gofynion statudol neu weinyddol am ddefnyddio arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifoldebau corfforaethol pwysig eraill yn cynnwys:

- sicrhau y cedwir at safonau uchel llywodraethu corfforaethol bob amser;
- pennu ein cyfeiriad a rheolaeth strategol cyffredinol, o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru;
- goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu Cynllun Corfforaethol, gan gorffori gofynion Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn un o gyfrifoldebau allweddol Aelodau'r Cyngor, a chyfeirir ato yn y ddogfen Fframwaith;
- sicrhau bod arian cyhoeddus – y dylid cymryd, at y diben hwn, ei fod yn cynnwys pob math o dderbynebau o ffioedd, taliadau a ffynonellau eraill – yn cael ei ddiogelu;
- sicrhau ein bod ni bob amser yn ymddwyn (mewn modd) mor effeithlon, effeithiol ac economaidd ag sy'n bosibl, gan fodloni'r holl ofynion statudol perthnasol;
- goruchwylio'r gwaith o gyhoeddi'r Adroddiad a Chyfrifon blynyddol – rhaid i'r rhain roi cyfrif llawn am ein defnydd o arian cyhoeddus, a sicrhau y cânt eu paratoi yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac unrhyw gyfarwyddyd perthnasol

arall a gyhoeddir o bryd i'w gilydd. Mae'r ddogfen Fframwaith yn nodi manylion pellach ar gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol;

- sicrhau y caiff y Cod Ymarfer ar Hawl i Weld Gwybodaeth y Llywodraeth ei roi ar waith trwy ein trefniadau cyhoeddi a gofynion Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;

- goruchwylio'r broses o gyflawni canlyniadau a gynllunnir trwy fonitro perfformiad yn erbyn cyfarwyddiadau a thargedau strategol cytunedig;

- sicrhau ein bod yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru wrth wneud penderfyniadau;

- sicrhau nad ydym yn gweithredu y tu hwnt i'n pwerau. Rhaid inni, bob amser, weithredu yn unol â'r canlynol:

    - ein Siarter Frenhinol;

    - gofynion cyfraith elusennau;

    - telerau ac amodau cymorth grant Llywodraeth Cymru; ac

    - unrhyw amodau perthnasol eraill ynghylch defnyddio arian cyhoeddus;

- goruchwylio'r trefniant ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau i Bwyllgorau, Cydweithwyr Celfyddydol ac aelodau o'r staff;

- sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth cyflogaeth berthnasol ac yn cyflogi staff â chymwysterau priodol a fydd yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r safonau uchel a ddisgwylir gan staff gwasanaeth cyhoeddus;

- sicrhau bod aelodau a staff yn gallu cael cyngor arbenigol a hyfforddiant priodol;

- sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a rheoli staff yn hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl ymgeiswyr a staff.  Ar gyfer penodiadau staff uwch, caiff amrywiaeth ddigonol o ymgeiswyr cymwysedig ei hystyried a chaiff cystadleuaeth agored ei defnyddio yn yr holl amgylchiadau heblaw rhai eithriadol;

- penodi, gyda chymeradwyaeth Gweinidog dynodedig adran noddi Llywodraeth Cymru Cyngor y Celfyddydau, Prif Weithredwr a monitro perfformiad y Prif Weithredwr;

- mynd i'r afael yn rhagweithiol â materion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl waith;

- sicrhau ein bod yn gweithredu Polisi Iaith Gymraeg sy'n hyrwyddo polisïau ac arferion yn unol â Mesurau a Safonau Cymraeg a ddiffinnir yn gyfreithiol;

- sicrhau ein bod yn hyrwyddo ac yn adlewyrchu egwyddorion Llesiant ac yn gweithredu polisïau ac arferion amgylcheddol da yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2.6 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i sefydlu'n gorff corfforaethol o dan Siarter Frenhinol. Os gwneir dyfarniad yn ein herbyn, byddai unrhyw setliad ariannol fel arfer yn cael ei dalu o gronfeydd Cyngor y Celfyddydau yn hytrach nag o asedau personol Aelodau unigol o'r Cyngor (ond gweler paragraff 2.16 isod).

## Cyfrifoldebau Aelodau Unigol o'r Cyngor

2.7 Cyfrifoldebau'r Cadeirydd. Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am roi arweinyddiaeth strategol effeithiol ar faterion megis:

- datblygu ein strategaeth gorfforaethol;

- cyfleu barn Cyngor y Celfyddydau ar faterion o bwys i'r cyhoedd;

- sicrhau ein bod yn rhoi sylw llawn i bolisïau cyffredinol y Llywodraeth;

- hybu a hyrwyddo defnyddio staff ac adnoddau eraill mewn modd priodol, effeithlon ac effeithiol ledled y sefydliad;

- darparu asesiad o berfformiad aelodau'r Cyngor, yn unigol ac ar y cyd;

- hyrwyddo, gyda'r Prif Weithredwr, lles y staff ac arferion gorau yn y telerau ac amodau gwasanaeth.

- sicrhau cyfle cyfartal a rhyddid rhag aflonyddu personol a bwlio;

- sicrhau ansawdd a chydraddoldeb wrthi inni ddarparu gwasanaeth ac yn ein gwaith, gan gynnwys rhoi grantiau;

2.8 Mae'r Cadeirydd yn sicrhau bod y Cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn; a bod cofnodion cyfarfodydd yn cofnodi'n gywir y penderfyniadau a wneir.

2.9 Caiff Cadeirydd y Cyngor ei benodi gan Weinidog dynodedig adran noddi Llywodraeth Cymru Cyngor y Celfyddydau. Mae'n gyfrifol i'r Gweinidog hwnnw ac yn cyfathrebu â'r Gweinidog ar ein rhan. (Mae'r Prif Weithredwr yn gweithredu ar ran y Cyngor ac mae ganddo gyfrifoldebau penodol ac ar wahân fel Swyddog Cyfrifyddu). Petai aelod unigol yn dymuno codi'r hyn sydd yn ei farn ef yn fater pwysig mewn perthynas â'i rôl fel Aelod o'r Cyngor gyda'r Gweinidog, dylid trafod materion o'r fath, fel mater o gwrteisi, â'r Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr yn y lle cyntaf. Wedyn bydd y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr yn ystyried a oes effaith ar fuddiannau aelodau eraill y Cyngor ac, os oes, a ddylid ymgynghori â hwy ai peidio. Ni fwriedir i unrhyw beth a ddywedir uchod rwystro aelodau unigol o'r Cyngor rhag cyflawni eu dyletswyddau fel dinasyddion, fel y gwelant yn dda, na rhag codi materion personol gyda'r Gweinidog (er enghraifft, parhau fel aelodau o'r Cyngor yn wyneb pwysau oherwydd ymrwymiadau eraill).

2.10 Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod pob aelod o'r Cyngor, wrth gychwyn yn ei swydd, yn cael ei briffio'n llawn ar delerau i benodiad ac ar ei ddyletswyddau, ei hawliau a'i gyfrifoldebau. Bydd y Cadeirydd yn trefnu i aelodau newydd ddilyn cwrs sefydlu ar ddyletswyddau aelodau neu ryw fath addas arall o hyfforddiant.

2.11 Mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd yn codi o bryd i'w gilydd pan fydd angen i'r Is-gadeirydd ddirprwyo dros y Cadeirydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr Is-gadeirydd yn ymgymryd â holl gyfrifoldebau a dyletswyddau'r Cadeirydd.

2.12 Dylai'r holl aelodau unigol fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ehangach. Yn yr un modd ag eraill sy'n gwasanaethu'r cyhoedd, dylent ddilyn Egwyddorion Nolan, sydd wedi'u nodi yn Atodiad B. Mae dyletswydd ar yr Aelodau i wneud y canlynol:

- cydymffurfio bob amser â'r Cod Ymarfer Gorau hwn ac â rheoliadau ynghylch defnyddio arian cyhoeddus;
- gweithredu'n ddiffuant ac er budd gorau Cyngor y Celfyddydau;
- dod a'r un lefel o ofal, diwydrwydd a sgil i waith Cyngor y Celfyddydau ag y byddent yn gwneud wrth reoli eu materion eu hunain;
- peidio â defnyddio eu pwerau er eu budd personol eu hunain neu er budd unigolion eraill neu grwpiau, gan gynnwys grwpiau ymgyrchu neu lobïo, y gallent fod yn gysylltiedig â hwy mewn unrhyw ffordd;

- cydymffurfio â Pholisi Cyngor y Celfyddydau ar Gyfryngau Cymdeithasol a pheidio â phostio negeseuon a allai fod yn gynhennus neu'n ddadleuol gan ddefnyddio eu hunaniaeth fel aelod o Gyngor y Celfyddydau neu yn arbennig lle gellid barnu bod y sylwadau hyn yn gysylltiedig â'u rôl fel Aelod o'r Cyngor (gweler Adran 4);

- trin y wybodaeth a gânt yn rhinwedd eu gwaith gyda'r Cyngor yn gyfrinachol a sicrhau na chaiff ei defnyddio er eu helw personol eu hunain;

- rhoi sylw i fuddiannau ein cyflogeion gan sicrhau arferion gorau yn y telerau ac amodau gwasanaeth, cyfle cyfartal a rhyddid rhag aflonyddu personol a bwlio;

- sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n rheolau ar dderbyn rhoddion a lletygarwch (gweler paragraffau 2.23 – 2.26).

Mae ar yr aelodau ddyletswydd cyfrinachedd gyffredinol i Gyngor y Celfyddydau. Mae felly'n ofynnol iddynt warchod gwybodaeth swyddogol a ddelir yn gyfrinachol. Ni ddylid cymryd bod unrhyw beth yn y Cod yn trechu rhwymedigaethau statudol neu rwymedigaethau'r gyfraith gyffredin sy'n bodoli eisoes i gadw gwybodaeth benodol yn gyfrinachol, neu mewn achosion priodol, i'w datgelu.

2.13 Disgwylir i aelodau beidio â dal swyddi â thâl i bleidiau gwleidyddol na bod â rolau di-dâl arbennig o sensitif neu uchel eu proffil mewn plaid wleidyddol. Yn ddarostyngedig i hynny, mae aelodau'n rhydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol, ar yr amod eu bod:

- yn glir nad ystyrir bod y gweithgarwch hwn yn gysylltiedig â'u rôl fel Aelod o'r Cyngor,

- yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyhoeddus cyffredinol ac yn arfer disgresiwn priodol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith Cyngor y Celfyddydau.

- O ran materion sy'n effeithio ar y gwaith hwnnw yn uniongyrchol, ni ddylent wneud areithiau gwleidyddol na chymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol eraill. Dylai aelodau ymatal rhag pob gweithgaredd gwleidyddol dadleuol.

2.14 Cyhoeddir cyfarwyddyd mwy penodol ar ymddygiad gwleidyddol aelodau gan Lywodraeth Cymru yn ystod ymgyrchoedd etholiadol. Diben y cyfarwyddyd yn gyffredinol yw esbonio'r mathau o weithgareddau na ellir eu cynnal yn ystod cyfnod yr ymgyrch, a'r effaith y bydd y cyfyngiadau hyn yn eu cael ar Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

2.15 Yn yr un modd, bydd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cyhoeddi cyfarwyddyd yn y cyfnod cyn dyfarnu Trwydded y Loteri Genedlaethol. Ac yntau'n un o ddosbarthwyr arian y Loteri, nid oes gan Gyngor y Celfyddydau unrhyw lais ynghylch dyfarnu'r Drwydded, ond rhaid i aelodau beidio â gwneud unrhyw beth y gellid ei gamddehongli gan gynigydd posibl neu gan y cyhoedd yn gyffredinol.

2.16 Fel arfer ni fydd aelodau unigol o'r Cyngor sy'n ymddwyn yn onest, yn rhesymol ac yn ddidwyll yn ennyn unrhyw atebolrwydd fel unigolion. Fodd bynnag, mae amgylchiadau penodol lle gellir dal aelodau unigol yn atebol; er enghraifft, pan fydd aelod o'r Cyngor yn gwneud datganiad twyllodrus neu esgeulus sy'n arwain at golled i drydydd parti, neu lle mae aelod yn camddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn rhinwedd ei swydd. Gall hyn gynnwys defnydd amhriodol o'i gyfrif e-bost gyda Chyngor y Celfyddydau neu weithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol fel aelod o'r Cyngor.  Dylai aelodau o'r Cyngor y mae arnynt angen rhagor o gyngor ar y materion hyn ymgynghori â'r Prif Weithredwr.

## Cydnabyddiaeth ariannol, Treuliau a Buddion Ariannol eraill.

2.17 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn elusen gofrestredig ac felly mae aelodau'r Cyngor yn destun y cyfrifoldebau a'r cyfyngiadau ar Ymddiriedolwyr Elusennau. Mae hyn yn eu hatal rhag cael budd mewn unrhyw ffordd o ganlyniad i'w safle fel Ymddiriedolwyr, ac eithrio'r Cadeirydd ac yn unol â'r darpariaethau a ddisgrifir yn 2.18.

2.18 Yn dilyn diwygiad i erthygl 4(6) o'n Siarter Frenhinol, a gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, telir Cadeirydd y Cyngor am ei wasanaethau. Mae'r diwygiad hefyd yn caniatáu cydnabyddiaeth ariannol i aelodau eraill ar yr amod bod y Comisiwn Elusennau yn cytuno arni yn gyntaf. Ar hyn o bryd, dim ond y Cadeirydd sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol, ac felly nid yw unrhyw aelod arall o'r Cyngor yn cael tâl am ei wasanaethau. Fodd bynnag caiff Cyngor y Celfyddydau "ad-dalu i unrhyw aelod o'r fath y treuliau yr aeth iddynt yn rhesymol wrth gyflawni ei ddyletswyddau". Defnyddir yr un arfer gyda'r rheiny sy'n aelodau o Bwyllgorau Cyngor y Celfyddydau. Gall Cydweithwyr Celfyddydol sy'n hunangyflogedig a/neu'n gweithio ar eu liwt eu hunain wneud hawliad am golli enillion ar gyfradd a bennir gan y Cyngor ac a adolygir yn rheolaidd.

2.19 Nid yw unrhyw aelod o'r Cyngor (heblaw yn yr amgylchiadau penodol a nodir ym mharagraff 2.18) yn gymwys i gael grantiau, dyfarniadau, bwrsarïau a thaliadau yn uniongyrchol gennym ni (neu gan un o'n dosbarthwyr dirprwyedig) iddo yntau fel aelod unigol o'r Cyngor. Gwaharddiad absoliwt yw hyn ac mae'n berthnasol hyd yn oed os caiff y rhain eu hargymell gan gorff heblaw'r un mae'r aelod yn perthyn iddo. Nid yw hyn yn effeithio ar sefyllfa aelodau'r Cyngor sy'n gyflogeion i'r sefydliadau a ariannwn. Yn yr achos hwn derbynnir bod yr aelod o'r Cyngor yn cael tâl gan y sefydliad dan sylw, yn

hytrach na chan Gyngor y Celfyddydau'n uniongyrchol. Rhaid i aelodau'r Cyngor ddatgan y buddiant hwn yn y ffordd arferol ac ymneilltuo o unrhyw drafodaeth mewn cyfarfod o'r Cyngor sy'n ymwneud â'r sefydliad/sefydliadau y mae ganddynt fuddiant ynddo/ynddynt. Mae ein polisi ar Gofrestru a Datgan Buddiannau (Atodiad C) yn berthnasol.

2.20 Mae gan aelodau, heblaw Aelodau'r Cyngor, o'n Pwyllgorau a'r Cydweithwyr Celfyddydol hawl i wneud cais am arian, yn ddarostyngedig i'n polisi ar Gofrestru a Datgan Buddiannau (Atodiad C). Dylai Cydweithwyr Celfyddydol droi at eu cyfarwyddyd ar wahân i weld rhagor o wybodaeth am wneud cais am arian gan Gyngor y Celfyddydau.

2.21 O bryd i'w gilydd mae'n bosibl y gofynnir i aelodau Pwyllgor gyflawni gorchwylion untro penodol i Gyngor y Celfyddydau na fyddai disgwyl iddynt wneud o dan delerau eu haelodaeth o un o'n Pwyllgorau. Mewn achosion o'r fath gellir talu ffioedd rhesymol i aelodau o'r fath, heblaw aelodau o'r Cyngor, ar yr amod bod yr aelod o staff neu'r corff sy'n comisiynu'r gwaith yn fodlon na ellir cyflawni'r gwaith yn fwy priodol gan rywun nad yw'n aelod. Dylai'r ffaith fod gwaith o'r fath yn cael ei gyflawni gael ei gofnodi yn y Gofrestr Buddiannau (gweler paragraff 2.27 isod).

2.22 Mae'n bosibl y bydd Cadeirydd y Cyngor yn mynnu bod Aelodau, heblaw aelodau'r Cyngor, sy'n cyflawni gwaith proffesiynol inni am gyfnod estynedig, yn ymddiswyddo fel aelod. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i aelod ymddiswyddo os yw o'r farn, ar ôl ceisio cyngor gan y Prif Weithredwr, y gallai cyflawni gwasanaeth am dâl i Gyngor y Celfyddydau greu'r argraff, i sylwedydd allanol, yr amharwyd ar ei ddidueddrwydd.

## Lletygarwch a Rhoddion

2.23 Ni chaiff unrhyw aelod dderbyn rhodd yn yr amgylchiadau canlynol:

- lle mae'r rhodd o fath a allai yn rhesymol ymddangos i sylwedydd allanol ei fod yn gymhelliad, neu
- lle mae'r rhodd oddi wrth sefydliad a ariennir gennym ni neu oddi wrth sefydliad sy'n ceisio arian, neu
- lle mae gweithgareddau'r sefydliad hwnnw'n cydredeg neu'n gorgyffwrdd â'r maes gwaith mae'r aelod yn ymwneud ag ef ar ran Cyngor y Celfyddydau; neu
- lle mae'r rhodd oddi wrth sefydliad neu berson y mae gennym berthynas fusnes ag ef, er enghraifft cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau.

Wrth benderfynu a ddylent dderbyn rhodd ai peidio, bydd angen i aelodau ddefnyddio eu synnwyr cyffredin a byddant yn dymuno peidio â thramgwyddo'n ddiangen. Dylai aelodau sydd ag unrhyw amheuon ynghylch y materion hyn ymgynghori â'r Prif Weithredwr.

Mae Cyngor y Celfyddydau'n cadw Cofrestr Rhoddion. Rhaid i aelodau sicrhau y caiff unrhyw rodd a dderbynnir ei chofnodi ar y gofrestr hon.

2.24 Ni fydd y canlynol yn cael eu hystyried yn gymelliadau:

- Darparu tocynnau am ddim i ddigwyddiadau y mae gan yr aelod ddiddordeb uniongyrchol ynddo. Er ei bod yn dderbyniol darparu rhagor o docynnau i ganiatáu i bartner yr aelod o'r staff, ac ar gyfer digwyddiadau priodol, plant yr aelod, fod yn bresennol; ni ddylai aelodau dderbyn tocynnau am ddim i grwpiau mwy o berthnasau neu ffrindiau. Gellir gweld rhagor o gyfarwyddyd ynghylch hawlio tocynnau yn nogfen Cyngor y Celfyddydau Cyfarwyddyd ar Dreuliau i Aelodau'r Cyngor, Cydweithwyr Celfyddydol ac Aelodau Pwyllgorau.

- Mae rhaglenni, catalogau, gwrthrychau coffaol ac eitemau â gwerth bach yn dderbyniol naill ai lle cânt eu dosbarthu i gynulleidfa eang mewn digwyddiad dathlu neu pan gânt eu derbyn ar ran Cyngor y Celfyddydau fel tystiolaeth o safon gwaith y sefydliad.

2.25 Fel arfer bydd aelod o'r staff yn gwneud trefniadau ar gyfer cysylltiadau rhwng aelod a sefydliad a ariannwn, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer darparu bwyd lle bo'n briodol. Fodd bynnag, dylai aelodau ddefnyddio eu synnwyr cyffredin er mwyn sicrhau nad ydynt yn derbyn lletygarwch mewn amgylchiadau neu ar raddfa o'r fath a allai ymddangos i sylwedydd allanol ei fod yn gymhelliad.

2.26 Yn y cyd-destun hwn, ni fydd angen rhoi sylw i ddarparu lluniaeth ysgafn megis te a choffi, cinio gweithio neu letygarwch sydd wedi'i fwriadu i grŵp ehangach mewn digwyddiadau megis perfformiadau gala neu nosweithiau cyntaf. Dylai aelodau sydd ag amheuon ynghylch derbyn gwahoddiadau i achlysuron o'r fath ymgynghori â'r Prif Weithredwr.

## Gwrthdaro buddiannau

2.27 Mae'n ofynnol i aelodau gofrestru a datgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a allai o bosibl wrthdaro â'u cyfrifoldebau fel aelodau yn unol â'n Polisi ar Gofrestru a Datgan Buddiannau (Atodiad C). Ac eithrio Gydweithwyr sy'n ymwneud ag asesiadau grant, bydd buddiannau a gofnodir yn aros yn ddilys am un flwyddyn ar ôl y dyddiad y daw'r buddiant i ben.

## Bod yn agored ac yn ymatebol

2.28 Dylai aelodau gynnal eu holl ymwneud â'r cyhoedd mewn ffordd agored a chyfrifol a sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'n Polisi ar Fynediad at Wybodaeth. Lle bynnag y bo modd, a chan gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, byddwn yn darparu mynediad at gofnodion o'n penderfyniadau ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau a wneir.

2.29 Bydd Cyngor y Celfyddydau'n sicrhau y gall ddangos ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn effeithiol, gyda phriodoldeb a heb sail am feirniadaeth bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion preifat, pleidiol neu wleidyddol. Bydd Cyngor y Celfyddydau'n gweithredu mewn modd sy'n gyson â natur ei fusnes a'r angen posibl am gyfrinachedd ar sail fasnachol neu sail arall. Bydd hyn bob amser yn ddarostyngedig i hawliau Llywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, a hawliau Senedd y DU a'r Rheolwr, i gael gwybodaeth. Rhaid i aelodau hefyd gydymffurfio â'r broses a nodir ym mharagraff 4.16 ac Atodiad F wrth ymdrin â chwynion ynghylch y methiant i ddarparu gwybodaeth.

## Perthnasoedd ag aelodau o'r staff

2.30 Mae gwahaniaeth pendant rhwng rolau'r aelodau a rolau'r staff. Mae'n ofynnol i'r staff sicrhau bod gwybodaeth ac arbenigedd ar gael yn rhwydd i aelodau er mwyn eu cynorthwyo yn y broses o lunio polisi, gwneud penderfyniadau a monitro cynnydd. Fel arfer ni ddisgwylir i aelodau gymryd rhan mewn cyfathrebiadau ffurfiol â'r rhai sy'n ymgeisio am arian, cyfleu penderfyniadau i ymgeiswyr neu i'r cyhoedd, neu roi'r penderfyniadau hynny ar waith. Mae'n dilyn na ddylai aelodau fynd fel unigolion at ymgeiswyr neu at y rheiny sydd eisoes yn cael arian oddi wrth Gyngor y Celfyddydau heb i'r aelod priodol o'r staff wybod am hynny a chytuno i hynny ymlaen llaw.

2.31 Anogir aelodau'r Cyngor i wneud defnydd llawn o'u harbenigedd penodol wrth gydweithio'n agos â'r staff ar ffurfiau celf neu feysydd pwnc perthnasol, ac wrth lunio polisïau a chynlluniau gweithredu. Bydd aelodau'r Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn ôl yr angen ac, o bryd i'w gilydd, gofynnir iddynt gynrychioli'r Cyngor mewn fforymau priodol.

## Dirprwyo cyfrifoldeb

2.32 Nodir polisi Cyngor y Celfyddydau ar ddirprwyo cyfrifoldeb yn Atodiad D.

# 3 Cod Ymarfer Gorau i Gyflogeion Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyflogeion Cyngor y Celfyddydau – Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol

3.1 Mae'r adran hon o'r Cod yn nodi'r safonau mae Cyngor y Celfyddydau'n eu disgwyl gan ei holl gyflogeion. Mae'r Cod yn gyfan yn rhan o'r amodau gwasanaeth i staff Cyngor y Celfyddydau.

3.2 Rhoddir copi o'r Cod i'r staff wrth iddynt gael eu penodi ac mae'n ofynnol iddynt gadw at ei ddarpariaethau. Ymdrinnir ag achosion o dorri'r Cod o dan ein Gweithdrefn Disgyblu.

3.3 Disgwylir safon uchel o ymddygiad a pherfformiad gan y staff ar bob lefel. Y gofynion allweddol yw:

- y dylai swyddogaethau cyhoeddus gael eu cyflawni mewn modd rhesymol ac yn unol â'r gyfraith;
- y dylai safonau moesegol sy'n llywodraethu proffesiynau penodol gael eu cydnabod;
- y dylai polisïau Cyngor y Celfyddydau gael eu rhoi ar waith gydag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;
- y dylai gwaith gael ei gyflawni gyda safon uchel o uniondeb ac ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus;
- y dylai arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio'n effeithiol ac y dylid rhoi cyfrif amdano; ac
- y dylai aelodau o'r cyhoedd, aelodau a chydweithwyr gael eu trin yn gwrtais ac yn ystyriol. (Yn y cyd-destun hwn cymerir bod y term 'cyhoedd' yn cynnwys artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd cyffredinol).

3.4 Fel y noda paragraffau 3.38 – 3.39, rydym hefyd yn disgwyl safon uchel o ymddygiad gan y rheiny, megis ymgynghorwyr, yr ydym yn eu contractio i gyflawni unrhyw orchwylion penodol.

3.5 Mae penodiadau staff yn dilyn arfer da ac yn cynnwys hysbysu swyddi gwag yn gyhoeddus lle bo'n briodol, ceisiadau a phroses llunio rhestr fer a chyfweld.

## Atebolrwydd

3.6 Dylai'r staff ymddwyn gydag uniondeb, didueddrwydd a gonestrwydd. Ni ddylent dwyllo neu gamarwain - yn fwriadol, yn ddi-hid neu'n esgeulus - y Cyngor, Llywodraeth Cymru, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, neu'r cyhoedd. Dylent fod yn ymwybodol:

- o'u hatebolrwydd i'r Cyngor;
- bod swyddogaethau a rolau Cyngor y Celfyddydau wedi'u nodi yn ei Siarter Frenhinol a'i ddogfen Fframwaith ac, o ran y Loteri Genedlaethol, yn y Cyfarwyddiadau Polisi ac Ariannol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;
- bod Gweinidog dynodedig adran noddi Llywodraeth Cymru Cyngor y Celfyddydau yn atebol yn y pen draw i Lywodraeth Cymru am annibyniaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd Cyngor y Celfyddydau.

Mae gan aelodau o'r Cyngor gyfrifoldebau fel cyflogwr. Nodir y rhain yng Nghod Ymarfer i Aelodau Cyngor y Celfyddydau (Adran 2 o'r ddogfen hon).

3.7 Dylai'r staff gydymffurfio â Pholisi Cyngor y Celfyddydau ar y Cyfryngau Cymdeithasol a pheidio â phostio negeseuon a allai fod yn gynhennus neu'n ddadleuol gan ddefnyddio eu hunaniaeth fel aelod o staff Cyngor y Celfyddydau neu yn arbennig lle gellid barnu bod y sylwadau hyn yn gysylltiedig â'u rôl fel aelod o'r staff (gweler Adran 4);

## Cyfrifoldebau a gweithgareddau'r Prif Weithredwr

3.8 Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb, o dan bwerau a ddirprwyir gan y Cyngor, am ein gwaith trefnu, rheoli a staffio cyffredinol ac am ein gweithdrefnau mewn materion ariannol ac eraill, gan gynnwys ymddygiad, disgyblu ac apeliadau. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo, trwy arweiniad ac esiampl, y gwerthoedd a gorfforir yn Egwyddorion Nolan (gweler Atodiad B). Dylai aelodau'r Cyngor gefnogi'r Prif Weithredwr wrth iddo gyflawni'r cyfrifoldeb hwn.

3.9 Mae'r Prif Weithredwr wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru yn 'Swyddog Cyfrifyddu' Cyngor y Celfyddydau. Cyfrifoldeb personol yw hwn am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano; am gadw cyfrifon priodol; am weinyddu darbodus a chynnil; am osgoi gwastraff ac afradlondeb; ac am ddefnyddio'r holl adnoddau mae'n gyfrifol amdanynt mewn modd effeithlon ac effeithiol. Mae gan y Swyddog Cyfrifyddu gyfrifoldeb am sicrhau y cynigir cyngor priodol i'r Cyngor ar yr holl faterion hyn. Mae cyflawni'r cyfrifoldebau hyn mewn modd boddhaol yn sylfaenol i rôl y Prif Weithredwr. Rhoddir cyfarwyddyd manylach ar rôl swyddog cyfrifyddu yn y ddogfen 'Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth

Cymru (WGSB)'. Yn rhinwedd y swydd hon mae'r Prif Weithredwr yn agored i gael ei holi am y materion hyn gan Bwyllgorau Llywodraeth Cymru neu gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

3.10 Bydd achlysuron yn codi pan fydd sefydliadau yn anfodlon ar ein hymateb i'w sefyllfa ac mae'n bosibl y byddant yn gofyn am gyfarfod â'r Prif Weithredwr. Mae'r Cod yn nodi gweithdrefnau ar gyfer cwynion (Adran 4 ac Atodiad F) ac ni ddylai rôl y Prif Weithredwr gael ei bygwth gan ei ymwneud â thrafodaethau rheolaidd gyda sefydliadau. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd yn codi lle gallai cyfarfod anffurfiol rhwng y Prif Weithredwr a sefydliad fod yn fuddiol. Yn yr amgylchiadau hyn caiff y Prif Weithredwr, yn ôl ei ddisgresiwn, gytuno i gais am gyfarfod.

## Ansawdd gweinyddu

3.11 Dylai'r staff gynnig ymddygiad a gwasanaeth o'r safon uchaf i'r cyhoedd, gan ymdrin â hwy mewn modd cydymdeimladol, effeithlon a phrydon a heb duedd neu gamweinyddu. Yn y cyd-destun hwn, cymerir bod y term 'cyhoedd' yn cynnwys artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd cyffredinol.

3.12 Rhaid ymdrin â gohebiaeth yn brydlon bob amser, yn gwrtais a chan gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol megis y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Fel rheol, byddwn yn ymateb i ohebiaeth cyn pen 10 diwrnod gwaith. Fodd bynnag, lle bydd yn cymryd mwy o amser i baratoi ateb llawn, caiff cydnabyddiaeth ei hanfon gan nodi pryd y gellir disgwyl ateb llawn.

3.13 Dylid gwneud cofnod ysgrifenedig o wybodaeth arwyddocaol sydd wedi'i chyfleu ar lafar mewn cyfarfodydd neu sgyrsiau dros y ffôn, yn arbennig lle mae gwybodaeth o'r fath yn gynhennus neu y gallai gael ei herio'n ddiweddarach.

3.14 Rhaid i wybodaeth a ddaw i law oddi wrth bob aelod o'r cyhoedd gael ei thrin yn ddyledus o gyfrinachol. Lle mae gwybodaeth, data a deunydd o unrhyw fath yn cynnwys data personol neu ddata personol sensitif, fel y diffinnir y ddau derm yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol o'r fath i unrhyw drydydd parti heb gytundeb datganedig y person dan sylw. Yr unig eithriad bydd os yw'n ofynnol inni wneud hynny dan y gyfraith neu ddeddfwriaeth drechol arall.

3.15 Yn eu cysylltiadau â'r cyhoedd, bydd y staff yn pwysleisio natur gorfforaethol ein penderfyniadau.

3.16 Rhaid i'r staff gydnabod yr angen am gyd-gymorth a chydweithredu. Er enghraifft, dylai'r staff sicrhau y rhoddir gwybod yn rheolaidd i gydweithwyr eraill am gynnydd trafodaethau y mae ganddynt ddiddordeb neu fuddiant ynddynt.

## Mynediad at wybodaeth

3.17 Rhaid i'r staff fod yn gwbl ymwybodol o'n hymrwymiad i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd mor rhwydd ag sy'n bosibl. Yn benodol, dylent fod yn ymwybodol o'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel y'u nodir yn Adran 4 o'r Cod.

3.18 Rhaid i'r staff weithredu i sicrhau bod gwybodaeth am argaeledd cymorth ariannol ar gael i'r holl grwpiau ac unigolion a allai ddymuno gwneud cais. At hynny, dylai'r staff sicrhau y rhoddir gwybod yn rheolaidd i'r rheiny sydd â chyfran ddilys, yn arbennig sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, am ddatblygiadau polisi, cynlluniau ar gyfer arfarniadau a'r cynnydd wrth ystyried ceisiadau am grantiau.

## Ymdrin â cheisiadau am grantiau

3.19 Dylai'r staff fod yn ymwybodol o'r gofynion o ran ymdrin â cheisiadau am grantiau a geir yn Adran 4 o'r Cod ac mewn canllawiau mewnol.

3.20 Mae'r Cyngor yn dibynnu ar y staff i ddarparu gwybodaeth gyfredol a dibynadwy am sefydliadau ac unigolion sy'n ceisio cymorth gennym. Rhaid i'r staff sicrhau eu bod yn cadw mewn cysylltiad i raddau digonol gyda sefydliadau ac unigolion sy'n cael arian (a darpar ymgeiswyr) er mwyn rhoi iddynt ddealltwriaeth lawn o'r ffordd mae'r sefydliadau ac unigolion hynny yn gweithio.

3.21 Rhaid i aelodau o'r staff sy'n gyfrifol am wasanaethu'r Cyngor, ei Bwyllgorau a Chydweithwyr Celfyddydol sicrhau y rhoddir i aelodau o'r cyrff hynny y wybodaeth briodol a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae'n bosibl y bydd angen i'r staff benderfynu, ar eu liwt eu hunain, peidio â dosbarthu deunydd ategol sydd wedi'i gyflenwi os yw'n ymddangos na fydd maint neu fformat y wybodaeth a gyflenwyd o gymorth i aelodau. Fodd bynnag, pan na chaiff gwybodaeth o'r fath ei dosbarthu, dylid nodi'n glir i aelodau'r cyrff sy'n ymwneud â'r mater ym mhapurau'r agenda bod y wybodaeth dan sylw ar gael i'w gweld cyn ac yn ystod y cyfarfod. Mewn achosion lle mae'r penderfyniad sydd i gael ei wneud yn gymhleth ac yn ddadleuol, dylai fod rhagdybiaeth bendant y rhoddir i'r aelodau yr holl wybodaeth mae ei hangen i wneud penderfyniad gwybodus.

3.22 Nid yw unrhyw aelod o'r staff yn gymwys i gael grantiau, dyfarniadau, bwrsarïau a thaliadau yn uniongyrchol oddi wrth Gyngor y Celfyddydau. Mewn sefyllfaoedd lle mae cyn aelodau o'r staff yn gwneud cais i ni am gymorth ariannol, byddir yn arbennig o ofalus i sicrhau bod yr holl brosesau mewnol sy'n ymwneud â'r cais hwnnw mor wrthrychol a thryloyw ag sy'n bosibl. Bydd yr un egwyddor yn berthnasol i ymgynghorwyr neu gontractwyr tra bônt yn cyflawni gweithgareddau inni.

## Perthnasoedd ag aelodau

3.23 Mae gwahaniaeth pendant rhwng rolau'r staff a rolau'r aelodau. Rôl y staff yw darparu cyngor a gwybodaeth a fydd yn cynorthwyo'r aelodau i wneud penderfyniadau, i roi'r penderfyniadau hynny ar waith ac i'w hesbonio i rannau priodol o'r cyhoedd. Yn yr holl brosesau hyn y staff yn hytrach na'r aelodau sydd â'r cyfrifoldeb am gysylltu â sefydliadau ac unigolion allanol. Ni ddylai'r staff ddatgelu i drydydd partïon fanylion cyswllt personol aelodau ac ni ddylent ddisgwyl i aelodau orfod esbonio penderfyniadau i ymgeiswyr yn y lle cyntaf.

3.24 Trowch at baragraffau 2.30 a 2.31 i gael rhagor o wybodaeth am y berthynas rhwng aelodau'r Cyngor a'r staff.

## Didueddrwydd a chysylltiadau â chyrff allanol

3.25 Dylai'r staff gadw at Bolisi ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Cyngor y Celfyddydau (Atodiad C) mewn perthynas â buddiannau preifat a gwrthdaro posibl â dyletswydd gyhoeddus, datgelu gwybodaeth swyddogol a gweithgareddau gwleidyddol. Ni ddylai'r staff gamddefnyddio eu statws swyddogol, na gwybodaeth a geir yn eu dyletswyddau swyddogol, i hyrwyddo eu buddiannau preifat hwythau neu fuddiannau preifat pobl eraill. Dylai'r staff sicrhau y canfyddir unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau yn gynnar ac y cymerir camau priodol i'w datrys. Bydd buddiannau a gofnodir yn aros ar y cofnod am un flwyddyn ar ôl y dyddiad y daw'r buddiant i ben.

3.26 Rhaid i bob aelod o'r staff beidio â gwneud unrhyw beth a allai fwrw amheuaeth ar ddidueddrwydd ei gyngor i'r Cyngor. Mae'n dilyn na chaiff unrhyw aelod o'r staff dderbyn gwahoddiad i wasanaethu ar Fwrdd neu Bwyllgor sefydliad sy'n cael cymorth grant gennym ni neu sefydliad sy'n ceisio cymorth grant. Caniateir aelodaeth syml o sefydliadau sy'n cael cymorth grant (neu o grwpiau cefnogwyr y cyrff hynny). Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn cael ei ganiatáu lle bo gweithgareddau'r sefydliad dan sylw o fewn maes cyfrifoldeb diffiniedig penodol yr aelod o'r staff.

3.27 Lle ceir cais am gymorth ariannol oddi wrth sefydliad y mae'r aelod o'r staff dan sylw wedi bod, neu yn dal i fod, â chysylltiadau blaenorol sylweddol ag ef, neu lle mae'n gysylltiedig trwy berthynas agos e.e. rhieni, priod/partner, plant a brodyr/chwiorydd, y gofyniad sylfaenol yw:

- y dylai ddatgelu'r cysylltiad hwn ar ei ffurflen Datgan Buddiannau ac yn rhan o unrhyw gyngor ysgrifenedig neu lafar mae'n ei gynnig; ac
- y caiff y datgeliad hwn ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod lle gwnaethpwyd y penderfyniad.

3.28 Mewn amgylchiadau lle gallai pwysigrwydd y penderfyniad sydd i gael ei wneud neu agosrwydd y cysylltiad fod yn debygol o fwrw amheuaeth ar briodoldeb a didueddrwydd cyngor yr aelod o'r staff, dylai'r aelod o'r staff geisio cyngor y Prif Weithredwr. Mae'n debyg mai'r rhagdybiaeth fydd na ddylai gymryd rhan yn y gwaith o baratoi cyngor neu mewn camau amgen y dylid eu cymryd. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n bosibl iawn y bydd yn briodol i'r aelod o'r staff ddilyn yr arfer Cymryd Rhan mewn Cyfarfodydd a nodir ym mharagraffau 3.1 – 3.6 o Atodiad C.

3.29 Gall aelodau o'r staff gyflawni gwaith am dâl i sefydliadau a gynorthwyir gennym ni ar yr amod nad yw hyn yn gwrthdaro â'u cyflogaeth gyda Chyngor y Celfyddydau. Fodd bynnag, rhaid iddynt yn gyntaf geisio barn eu Cyfarwyddwr ac, os yw'n cytuno, cael caniatâd ffurfiol ysgrifenedig y Prif Weithredwr. Dylid nodi, fodd bynnag, na all hyn olygu taliad uniongyrchol oddi wrth Gyngor y Celfyddydau (fel y rhagnoda gofynion 3.22 uchod). Os oes gan yr aelod o'r staff fuddiant llywodraethol yn y sefydliad, neu'n gallu arfer rheolaeth sylweddol drosto, neu'n cael neu'n mynd i gael budd ariannol sylweddol oddi wrtho, bernir bod hwn yn daliad uniongyrchol oddi wrth Gyngor y Celfyddydau. Yn yr holl achosion hyn ni chaniateir taliad. Mae'r Prif Weithredwr yn cadw'r hawl i dynnu'r caniatâd hwn yn ôl petai newid mewn amgylchiadau'n gwneud hynny'n angenrheidiol.

3.30 Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl y bydd ymwneud â busnes sefydliadau (heblaw'r rhai yr ydym yn eu cynorthwyo) yn lleihau effeithiolrwydd neu ddidueddrwydd y staff. Mae'r rheolau canlynol, a atgynhyrchir o'r Llawlyfr Staff, yn berthnasol i weithgareddau nad yw paragraff 3.26 yn ymdrin â hwy:

- Fel arfer ni fydd Cyngor y Celfyddydau yn ymwneud â gweithgareddau allanol y mae ei gyflogeion yn cymryd rhan ynddynt. Er hynny, mae hyn ar yr amod bod staff ar gael i fodloni'r amodau cyflogaeth y maent wedi cytuno iddynt. Yn ychwanegol, disgwylir na fydd staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a allai beri embaras i Gyngor y Celfyddydau neu wrthdaro â'i waith.

- Pan fo cyflogeion yn ansicr a fyddai unrhyw weithgaredd y maent yn dymuno ymgymryd ag ef yn debyg o fod yn annerbyniol, dylent geisio cyngor Cyfarwyddwr eu hadran. Mae trefniant dewisol i aelodau staff geisio cael cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer gweithgareddau allanol ac mae ffurflen at y diben hwn ar gael oddi wrth swyddfa'r Prif Weithredwr.

- Sut bynnag, rhaid cael caniatâd ymlaen llaw bob amser gan y cyfarwyddwr adran priodol cyn bod cyflogai yn ymgymryd â gwaith allanol sy'n golygu defnyddio amser neu adnoddau swyddogol neu sy'n cynnwys unrhyw gyfeiriad at faes cyfrifoldeb yr aelod staff dan sylw.

## Uniondeb

3.31 Ni ddylai'r staff ddefnyddio eu swydd swyddogol i gael, cytuno i gael neu geisio cael unrhyw daliad neu gydnabyddiaeth arall am wneud, neu am beidio â gwneud, unrhyw beth neu ffafrio, neu beidio â ffafrio, unrhyw berson. Ni ddylent gael buddion o unrhyw fath oddi wrth drydydd parti y gellid barnu'n rhesymol ei fod yn peryglu eu barn ac uniondeb personol. O dan Ddeddf Atal Llygredigaeth 1916 a Deddf Llwgrwobrwyo 2010, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i gyflogeion cyrff cyhoeddus brofi nad yw cael taliad neu gydnabyddiaeth arall oddi wrth rywun yr ymddengys ei fod yn cael contract yn llwgr.

## Lletygarwch a Rhoddion

3.32 Dylid darllen yr adran ganlynol ar y cyd â Pholisi Lletygarwch a Rhoddion Staff Cyngor y Celfyddydau (Atodiad E).

3.33 Lle bo aelodau o'r staff yn ymweld â sefydliad a ariannwn (neu un sy'n ceisio cael ei ariannu), ni ddylent gytuno i brydau bwyd gael eu darparu neu eu prynu iddynt. Fodd bynnag, nid oes angen cymryd i ystyriaeth darparu lluniaeth ysgafn fel te a choffi, cinio neu letygarwch sydd wedi'i fwriadu i grŵp ehangach mewn digwyddiadau megis perfformiadau gala neu nosweithiau cyntaf (ac eithrio lle gellid barnu bod lletygarwch o'r fath yn gymhelliad yng nghyd-destun penderfyniadau sydd ar y gweill). Dylai aelodau o'r staff sydd ag amheuon ynghylch derbyn gwahoddiadau i achlysuron o'r fath ymgynghori â'r Prif Weithredwr.

3.34 Rydym yn cadw Cofrestr Lletygarwch. Bydd pob aelod o'r staff yn cofnodi yn y gofrestr hon yr holl letygarwch a gaiff. Nid yw'n ofynnol i'r staff gofrestru cael lletygarwch dibwys fel te, coffi neu luniaeth ysgafn arall a ddarperir iddynt yn ystod busnes arferol. Dylai pob cofnod yn y Gofrestr gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- enw'r sawl a gafodd y lletygarwch a'i swydd yng Nghyngor y Celfyddydau
- enw'r unigolyn neu sefydliad a ddarparodd y lletygarwch
- faint o letygarwch a ddarparwyd; a
- natur yr achlysur pan ddarparwyd y lletygarwch.

3.35 Ni chaiff aelodau o'r staff dderbyn rhoddion o unrhyw fath mewn unrhyw amgylchiadau. Byddai hyn yn cynnwys rhoddion oddi wrth unigolyn neu sefydliad a ariannwn, rhoddion oddi wrth unigolyn neu sefydliad sy'n ceisio arian, rhoddion oddi wrth gyflenwr sy'n ceisio contract neu roddion a roddir fel

cildwrn am unrhyw reswm. Fodd bynnag, ni fydd y canlynol yn cael eu hystyried yn rhoddion:

- Darparu tocynnau am ddim i ddigwyddiadau y mae gan yr aelod o'r staff dan sylw ddiddordeb proffesiynol ynddynt.

- Er ei bod yn dderbyniol darparu rhagor o docynnau i ganiatáu i bartner yr aelod o'r staff, ac ar gyfer digwyddiadau priodol, plant yr aelod, fod yn bresennol; ni ddylai'r staff dderbyn tocynnau am ddim i grwpiau mwy o berthnasau neu ffrindiau. Gellir gweld rhagor o gyfarwyddyd ynghylch hawlio tocynnau yn ein Cyfarwyddyd ar Dreuliau i Aelodau o'r Staff.

- Mae rhaglenni, catalogau, gwrthrychau coffaol ac eitemau tebyg yn dderbyniol naill ai lle cânt eu dosbarthu i gynulleidfa eang mewn digwyddiad dathlu neu pan gânt eu derbyn ar ran Cyngor y Celfyddydau fel tystiolaeth o ansawdd gwaith y sefydliad.

## Defnyddio adnoddau

3.36 Dylai'r staff geisio sicrhau y defnyddir adnoddau mewn modd priodol, darbodus, effeithiol ac effeithlon.

## Gwybodaeth swyddogol

3.37 Mae ar y staff ddyletswydd cyfrinachedd gyffredinol i Gyngor y Celfyddydau. Mae felly'n ofynnol iddynt warchod gwybodaeth swyddogol a ddelir yn gyfrinachol. Ni ddylid cymryd bod unrhyw beth yn y Cod yn trechu rhwymedigaethau statudol neu rwymedigaethau'r gyfraith gyffredin sy'n bodoli eisoes i gadw gwybodaeth benodol yn gyfrinachol, neu mewn achosion priodol, i'w datgelu.

Dylai'r staff weithredu'n unol â'n rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y'u rhagnodir yn ein polisi ar Fynediad at Wybodaeth a geir yn Adran 4 o'r Cod hwn, a'i Gynllun Cyhoeddi (Atodiad A).

## Ymgynghorwyr, contractwyr a gweithwyr dros dro eraill

3.38 Rydym yn disgwyl ymddygiad o'r safon uchaf gan yr holl unigolion yr ydym yn defnyddio eu gwasanaethau.

3.39 Mae'r adrannau o'r Cod ar ofynion allweddol (paragraff 3.3), cyfrinachedd (paragraff 3.14) a lletygarwch a rhoddion (paragraffau 3.32 - 3.35) yn berthnasol i'r rheiny yr ydym yn eu contractio dros dro i gyflawni gorchwylion penodol. Mae gofynion cyfrinachedd yn ymestyn hefyd i gyfieithwyr rydym yn eu defnyddio.

## Datgelu er budd y cyhoedd (Polisi Chwythu'r Chwiban)

3.40 Rhoddir gwybod i'r holl staff am bolisi Cyngor y Celfyddydau ar Ddatgelu yn rhan o'u proses sefydlu ar ddechrau eu cyflogaeth gyda Chyngor y Celfyddydau.

## Ar ôl gadael cyflogaeth

3.41 Dylai aelodau o'r staff barhau i gyflawni eu dyletswydd cyfrinachedd (gweler paragraff 3.14) ar ôl gadael cyflogaeth gyda Chyngor y Celfyddydau.

3.42 Os yw aelod o'r staff yn gadael cyflogaeth gyda ni i weithio i sefydliad sy'n cael neu'n ceisio arian gennym ni, bydd angen datgan buddiant a bydd y cofnod yn parhau am o leiaf un flwyddyn ar ôl y dyddiad y daeth ei gyflogaeth i ben.

# 4 Gweithdrefnau ar gyfer rhoi egwyddorion y Cod ar waith

4.1 Mae'r adran hon o'r Cod yn rhoi trosolwg o'r canlynol:

- Mynediad at Wybodaeth
- Ymdrin â Cheisiadau am Gymorth
- Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol
- Cwynion yn erbyn Aelodau neu Gyflogeion Cyngor Celfyddydau Cymru
- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Cyngor

## Mynediad at Wybodaeth

4.2 Mae Cyngor y Celfyddydau wedi ymrwymo i gyflawni ei waith mewn ffordd sydd mor agored ag sy'n bosibl ac i gyhoeddi cymaint o wybodaeth ag sy'n rhesymol ymarferol. At y diben hwn, rydym yn gweithredu o dan y Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd gwybodaeth. Mae copi o'r Cynllun Cyhoeddi yn Atodiad A. Mae hwn yn nodi'r lefel o wybodaeth yr ydym yn ei chyhoeddi fel mater o drefn ar ein gwefan a lle gellir gweld y wybodaeth hon. Mae'n ofynnol inni gynhyrchu Adroddiad Blynyddol sy'n rhoi cyfrif am y gwasanaethau a ddarperir, cost y gwasanaethau hynny, y person sy'n gyfrifol am bob maes gwaith, targedau a osodir, safonau a ddisgwylir a chanlyniadau a gyflawnwyd. At hynny, bydd ein staff yn mynd ati i ddosbarthu gwybodaeth i sefydliadau a ariannwn ac eraill yr ymddengys iddynt fod arnynt angen gwybodaeth (er enghraifft, fel ymgeiswyr posibl) (gweler Adran 3).

4.3 O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gall unrhyw un ofyn am wybodaeth, lle nad yw'r wybodaeth honno ar gael yn rhwydd, trwy lythyr neu neges e-bost atom ni. Mae'n bosibl y bydd rhwymedigaeth arnom o dan y Ddeddf i roi gwybod i'r sawl sy'n gofyn am y wybodaeth a ydym yn cadw'r wybodaeth mae'n ei cheisio. Os ydym yn cadw'r wybodaeth, mae gennym 20 diwrnod gwaith i ddarparu'r wybodaeth, yn ddarostyngedig i unrhyw esemptiadau o dan y Ddeddf a allai fod yn berthnasol. Mae rhagor o fanylion ynghylch ein trefniadau ar gyfer prosesu ac ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

## Ymdrin â cheisiadau am gymorth ariannol

4.4 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y dylai gwybodaeth lawn am argaeledd cymorth grant fod ar gael yn helaeth. Bydd y wybodaeth yn cynnwys manylion gweithdrefnau ar gyfer gwneud ceisiadau, eu ffurf a'u cynnwys, y meini prawf yr ystyrir ceisiadau o danynt a dyddiadau ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Gellir

gweld rhagor o wybodaeth am ein trefniadau a chyfleoedd o ran arian grant ar ein gwefan

4.5 Bydd staff Cyngor y Celfyddydau yn sicrhau yr anfonir digon o wybodaeth am bob cais at aelodau o'r Pwyllgorau neu'r Cydweithwyr Celfyddydol sy'n gyfrifol am ystyried ceisiadau yn y lle cyntaf i'w galluogi i ddod i gasgliad gwybodus yn unol â'n gweithdrefn asesu grantiau.

4.6 Byddwn yn sicrhau y caiff pob cais am gymorth ariannol ei ystyried mewn modd diduedd a chyfrinachol. Mae ein gweithdrefnau, gan gynnwys y rhai a nodir yn Atodiad C wedi'u bwriadu i sicrhau na chaniateir i neb sydd â buddiant sylweddol mewn cais am grant gymryd rhan yn y broses sy'n arwain at benderfyniad. Ni fydd y wybodaeth a geir mewn ceisiadau, lle bernir ei bod yn bersonol neu'n gyfrinachol, yn cael ei datgelu i drydydd partïon heb awdurdodiad yr ymgeisydd, oni fo'n ofynnol gwneud hynny dan y gyfraith neu ddeddfwriaeth drechol.

4.7 Bydd ymgeiswyr yn cael neges ysgrifenedig yn rhoi gwybod iddynt am benderfyniad Cyngor y Celfyddydau yn unol â'r amserlen a nodir yn y neges i gadarnhau cydnabyddiaeth. Lle bo cais wedi cael ei wrthod, rhoddir rhesymau cryno am y penderfyniad.

4.8 Ni ellir cyflwyno unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniad ar rinweddau cais, ac ni ellir cyflwyno apeliadau ynghylch cais rhywun arall.

4.9 Mae Atodiad F yn rhoi manylion y Gweithdrefnau Cwyno sy'n agored i'r rheiny sy'n anfodlon ar yr ymateb i'w cais.

4.10 Byddwn yn ceisio adennill unrhyw fenthyciadau nas ad-dalwyd, ad-daliadau grantiau neu anfonebau nas talwyd. Ni chaiff diffygdalwyr wneud cais am ragor o arian hyd nes y bydd canlyniad boddhaol wedi'i sicrhau.

## Defnyddio cyfryngau cymdeithasol

4.11 Mae Cyngor y Celfyddydau'n cydnabod bod llawer o aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgorau a'r staff yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn bersonol. Er nad ydynt yn gweithredu ar ran Cyngor y Celfyddydau, rhaid i'r aelodau a'r staff fod yn ymwybodol y gallant niweidio'r sefydliad os cânt eu hadnabod fel un o'n haelodau neu ein cyflogeion.

4.12 Caniateir i'r aelodau a'r staff ddweud eu bod yn gysylltiedig â Chyngor y Celfyddydau neu eu bod yn gweithio iddo. Mae hyn yn cydnabod ei bod yn naturiol i'w aelodau a'i staff weithiau ddymuno trafod eu gwaith ar gyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, rhaid i broffil ar-lein yr unigolyn (er enghraifft, enw defnyddiwr blog neu enw Twitter) beidio â chynnwys enw'r sefydliad h.y. [enw, Cyngor y Celfyddydau]

4.13 Os yw aelodau a staff yn trafod eu gwaith ar gyfryngau cymdeithasol (er enghraifft lle maent yn bresennol mewn digwyddiad celfyddydol), rhaid iddynt gynnwys yn eu proffil ddatganiad tebyg i'r canlynol: "Fy marn i yn unig yw'r farn rwy'n ei mynegi yma ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor y Celfyddydau o angenrheidrwydd". Ni ddylai'r aelodau a'r staff bostio deunydd na sylwadau ar ran Cyngor y Celfyddydau. Rhaid i'r aelodau a'r staff osgoi trafodaethau amhriodol ar gyfryngau cymdeithasol bob amser.

4.14 Ni chaniateir i'r aelodau a'r staff ddatgelu gwybodaeth sy'n ariannol, yn weithredol, yn strategol neu'n gyfreithiol ei natur, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chleientiaid a rhanddeiliaid.

4.15 Rhaid i unrhyw negeseuon mae aelodau a staff yn eu rhoi yn bersonol ar gyfryngau cymdeithasol beidio â:

- dwyn anfri ar y sefydliad, er enghraifft trwy:
  - feirniadu neu ddadlau gyda chwsmeriaid, cydweithwyr neu gystadleuwyr;
  - gwneud sylwadau difrïol am unigolion neu sefydliadau neu grwpiau eraill; neu
  - bostio lluniau sy'n amhriodol neu ddolenni i gynnwys amhriodol;
- torri cyfrinachedd, er enghraifft trwy:
  - ddatgelu gwybodaeth gyfyngedig/gyfrinachol sy'n eiddo i'r sefydliad;
  - rhoi gwybodaeth gyfrinachol am unigolyn (megis cydweithiwr neu berson cyswllt cwsmer) neu sefydliad; neu
  - drafod gwaith mewnol y sefydliad neu ei gynlluniau busnes at y dyfodol nad ydynt wedi cael eu cyfleu i'r cyhoedd;
- torri hawlfraint, er enghraifft trwy:
  - ddefnyddio lluniau neu gynnwys ysgrifenedig rhywun arall heb ganiatâd; neu
  - beidio â rhoi cydnabyddiaeth lle rhoddwyd caniatâd i atgynhyrchu rhywbeth; neu

- wneud unrhyw beth y gellid ei ystyried yn wahaniaethol i unrhyw unigolyn, neu yn fater o fwlio neu aflonyddu unrhyw unigolyn, er enghraifft trwy:

- wneud sylwadau tramgwyddus neu ddifrïol ynghylch rhyw, ailbennu rhywedd, hil (gan gynnwys cenedligrwydd), anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred neu oedran;

- defnyddio cyfryngau cymdeithasol i fwlio unigolyn arall (megis aelod o'r sefydliad neu gyflogai iddo); neu

- bostio lluniau sy'n wahaniaethol neu'n dramgwyddus (neu ddolenni i gynnwys o'r fath).

## Cwynion yn erbyn aelodau neu gyflogeion Cyngor Celfyddydau Cymru

4.16 Mae'r ddogfen o'r enw "Cyngor Celfyddydau Cymru – Gweithdrefn Gwyno", yn esbonio sut yr ydym yn rheoli cwynion Atodiad F. Gellir lawrlwytho hon o'n gwefan.

## Pwyllgorau Cyngor y Celfyddydau

### Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

4.17 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n gweithredu nifer o Bwyllgorau i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru inni sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'n cynghori, ac i ddarparu sicrwydd, ynghylch digonolrwydd y trefniadau ar gyfer archwilio mewnol, archwilio allanol a llywodraethu corfforaethol.

4.18 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn un o bwyllgorau'r Cyngor, ac yn adrodd iddo.

4.19 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynorthwyo'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu trwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw'r sicrwydd ar lywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth ac uniondeb y datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.

4.20 Yn benodol, mae'n gyfrifol am adolygu'r systemau Rheolaeth Fewnol yng ngweithrediadau rheoli risg, rheolaeth, llywodraethu ac ariannol y Cyngor a'i weithrediadau eraill er mwyn helpu i hybu'r safonau priodoldeb uchaf wrth ddefnyddio arian cyhoeddus a hybu atebolrwydd priodol am y defnydd o'r arian hwnnw.

4.21 Hefyd, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol, monitro ein cynnydd wrth weithredu'r argymhellion a godir, a chynghori'r Cyngor ar faterion perthnasol.

4.22 Wrth gyflawni'r gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn defnyddio gwaith y swyddogaethau Archwilio Mewnol, Archwilio Allanol a swyddogaethau sicrwydd eraill yn bennaf, ond ni fydd yn gyfyngedig i'r swyddogaethau archwilio hyn. Bydd hefyd yn gofyn am adroddiadau a sicrwydd gan Gyfarwyddwyr a Rheolwyr fel bo'n briodol, ac mae'n gallu galw ar unrhyw aelod o'r staff i ddod i gyfarfodydd pan fo'n ofynnol.

## 5 Cyfeiriadau

Rhestrir dogfennau yn y drefn y maent yn ymddangos am y tro cyntaf yn nhestun y Cod.

Tabl 1: Rhestr o'r dogfennau y cyfeirir atynt a'u ffynhonnell

| Dogfen | Ffynhonnell |
|---|---|
| Dogfen Fframwaith | Llywodraeth Cymru |
| Deddfau'r Loteri a Chyfarwyddiadau Ariannol | Llywodraeth Cymru |
| Siarter Frenhinol | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Cynllun Corfforaethol | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Cynlluniau Gweithredol | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Adroddiad Blynyddol | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Cyfrifon Blynyddol | Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol) |
| Cyfarwyddyd i Gydweithwyr Celfyddydol | Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol) |
| Cyfarwyddyd ar Dreuliau i'r Cyngor, Cydweithwyr Celfyddydol ac Aelodau o Bwyllgorau | Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol) |
| Gweithdrefn Disgyblu | Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol) |
| Llawlyfr Staff Cyngor Celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol) |
| Cyfarwyddyd ar Dreuliau i'r Staff | Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol) |
| Polisi ar Ddatgelu er Budd y Cyhoedd (Polisi Chwythu'r Chwiban) | Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol) |
| Cynllun Cyhoeddi | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Rhyddid Gwybodaeth - Polisi Codi Tâl | Cyngor Celfyddydau Cymru |

I gael copïau o'r dogfennau hyn, rhowch gynnig ar y gwefannau canlynol:

www.arts.wales

https://ico.org.uk/

www.gov.wales

Neu cysylltwch â ni:

Cyngor Celfyddydau Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL.

Governance@arts.wales

Atodiad A

Information Commissioner's Office

# Cynllun cyhoeddi enghreifftiol

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r cynllun cyhoeddi enghreifftiol hwn wedi ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir ei fabwysiadu heb ei addasu gan unrhyw awdurdod cyhoeddus heb gymeradwyaeth bellach a bydd yn ddilys nes y nodir fel arall.

Mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn ymrwymo awdurdod i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd fel rhan o'i weithgareddau busnes arferol. Mae'r wybodaeth a gwmpasir wedi ei chynnwys yn y dosbarthiadau o wybodaeth a grybwyllir isod, lle mae'r awdurdod yn cadw'r wybodaeth hon. Darperir cymorth atodol o ran diffinio'r dosbarthiadau hyn yn y llawlyfrau arweiniad i sectorau penodol a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r cynllun yn ymrwymo awdurdod:

- I gyhoeddi gwybodaeth yn rhagweithiol neu ei darparu fel arall fel mater o drefn, gan gynnwys gwybodaeth amgylcheddol, a gedwir gan yr awdurdod ac sydd o fewn y dosbarthiadau isod.
- I ddynodi'r wybodaeth a gedwir gan yr awdurdod ac sydd o fewn y dosbarthiadau isod.
- I gyhoeddi gwybodaeth yn rhagweithiol neu ei darparu fel arall fel mater o drefn, yn unol â'r datganiadau a gynhwysir yn y cynllun hwn.
- I gynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau o ddarparu'r wybodaeth benodol fel mater o drefn er mwyn i'r cyhoedd allu ei nodi a chael mynediad ati yn hwylus.
- I adolygu a diweddaru'r wybodaeth mae'r awdurdod yn ei darparu o dan y cynllun hwn yn rheolaidd.
- I gynhyrchu atodlen o unrhyw ffioedd a godir am fynediad i wybodaeth sy'n cael ei darparu'n rhagweithiol.
- I ddarparu'r cynllun cyhoeddi hwn i'r cyhoedd.

- I gyhoeddi unrhyw set ddata a gedwir gan yr awdurdod wedi derbyn cais amdano, ac unrhyw fersiynau wedi eu diweddaru a gedwir, oni bai fod yr awdurdod yn hyderus nad yw'n briodol i wneud hynny; i gyhoeddi'r set ddata, lle bo'n rhesymol ymarferol, ar ffurf electronig y gellir ei

  hailddefnyddio; ac, os yw unrhyw wybodaeth yn y set ddata yn waith hawlfraint perthnasol ac mai'r awdurdod cyhoeddus yw'r unig berchennog, i ddarparu'r wybodaeth i'w hailddefnyddio o dan delerau Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015, os yn gymwys, ac fel arall o dan delerau'r Deddf Rheoli Gwybodaeth adran 19.

  Diffinnir y term 'set ddata' yn adran 11(5) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Diffinnir y term 'gwaith hawlfraint perthnasol' yn adran 19(8) o'r Ddeddf honno.

## Dosbarthiadau o wybodaeth

**Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud.**

Gwybodaeth sefydliadol, lleoliadau a chysylltiadau, llywodraethu cyfansoddiadol a chyfreithiol.

**Yr hyn rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario.**

Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag incwm a gwariant a ragwelir a gwir, tendro, caffael a chontractau.

**Beth yw ein blaenoriaethau a sut mae pethau'n mynd rhagddynt.**

Gwybodaeth strategaeth a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, archwiliadau ac adolygiadau.

**Sut rydym yn gwneud penderfyniadau.**

Cynigion a phenderfyniadau polisi. Prosesau gwneud penderfyniadau, meini prawf a gweithdrefnau mewnol, ymgynghoriadau.

**Ein polisïau a gweithdrefnau.**

Protocolau ysgrifenedig presennol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau.

**Rhestrau a chofrestrau.**

Gwybodaeth a gedwir mewn cofrestrau sy'n ofynnol gan y gyfraith a rhestrau a chofrestrau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod.

**Y gwasanaethau a gynigiwn.**

Cyngor ac arweiniad, llyfrynnau a thaflenni, trafodion a datganiadau i'r cyfryngau. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir.

Yn gyffredinol, ni fydd y dosbarthiadau o wybodaeth yn cynnwys:

- Gwybodaeth y mae ei datgelu wedi ei atal gan gyfraith, neu wedi ei eithrio o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu sydd fel arall yn cael ei hystyried yn gywir i fod wedi ei diogelu rhag datgelu.

- Gwybodaeth ar ffurf drafft.

- Gwybodaeth nad yw bellach ar gael yn rhwydd gan ei bod wedi ei chynnwys mewn ffeiliau sydd wedi eu rhoi mewn storfa archif, neu sy'n anodd cael mynediad ati am resymau tebyg.

## Y dull o ddarparu gwybodaeth a gyhoeddir o dan y cynllun hwn

Bydd yr awdurdod yn dynodi'n glir i'r cyhoedd pa wybodaeth sy'n dod o dan y cynllun hwn a sut y gellir cael gafael arni.

Lle bo hyn o fewn galluogrwydd awdurdod cyhoeddus, darperir gwybodaeth ar wefan. Lle nad yw'n ymarferol i ddarparu gwybodaeth ar wefan neu pan nad yw unigolyn eisiau cyrchu'r wybodaeth ar y wefan, bydd awdurdod cyhoeddus yn dynodi sut y gellir cael gwybodaeth trwy ddull arall a'i darparu trwy'r dull hwnnw.

O dan amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl na fydd rhywfaint o wybodaeth ar gael ond trwy fynd i'w gweld yn bersonol. Lle dynodir y dull hwn, caiff manylion cyswllt eu darparu. Caiff apwyntiad i weld y wybodaeth ei drefnu o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Caiff y wybodaeth ei darparu yn yr iaith y'i cedwir ynddi neu mewn pa bynnag iaith arall sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Lle mae'n ofyniad cyfreithiol ar awdurdod i gyfieithu unrhyw wybodaeth, bydd yn gwneud hynny.

Cedwir at rwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth anabledd a gwahaniaethu ac unrhyw ddeddfwriaeth arall i ddarparu gwybodaeth ar ffurfiau a fformatau eraill wrth ddarparu gwybodaeth yn unol â'r cynllun hwn.

## Ffioedd y gellir eu codi am wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y cynllun hwn

Diben y cynllun hwn yw darparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am gyn lleied o anghyfleustra a chost i'r cyhoedd ag sy'n bosibl. Bydd ffioedd a godir

gan yr awdurdod am ddeunyddiau a gyhoeddir fel mater o drefn yn cael eu cyfiawnhau ac yn dryloyw ac yn cael eu cadw mor fach ag sy’n bosibl.

Bydd deunyddiau a gyhoeddir ac a gyrchir drwy wefan yn cael eu darparu am ddim.

Gellir codi ffioedd am wybodaeth yn ddarostyngedig i gyfundrefn codi ffioedd a ragnodwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig.

Gellir codi ffioedd am dreuliau gwirioneddol sy’n codi megis:

- llungopïo
- postio a phacio
- y costau sy’n codi’n uniongyrchol o ganlyniad i edrych ar y wybodaeth

Gellir hefyd codi ffioedd am wybodaeth a ddarperir o dan y cynllun hwn lle maent wedi eu hawdurdodi’n gyfreithiol, lle maent o dan yr holl amgylchiadau, gan gynnwys egwyddorion cyffredinol yr hawl i fynediad at wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus, wedi eu cyfiawnhau ac yn unol â rhestr a gyhoeddwyd neu restrau o ffioedd sydd ar gael yn hwylus i’r cyhoedd.

Gellir hefyd codi ffioedd am ddarparu setiau data, (neu rannau o setiau data) sy’n weithiau hawlfraint perthnasol, i’w hailddefnyddio. Bydd y ffioedd hyn yn unol â thelerau Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015, lle bônt yn gymwys, neu â’r rheoliadau a wnaed o dan adran 11B o’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu â phwerau statudol eraill yr awdurdod cyhoeddus.

Os codir ffi, rhoddir cadarnhad o faint sy’n ddyledus cyn darparu’r wybodaeth. Gellir gofyn am y taliad cyn darparu’r wybodaeth.

## Ceisiadau ysgrifenedig

Gellir gwneud cais ysgrifenedig am wybodaeth a gedwir gan awdurdod cyhoeddus nad yw wedi ei chyhoeddi yn y cynllun hwn, ac ystyrir ei darparu yn unol â darpariaethau’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

# Atodiad B

## Egwyddorion Nolan – Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

### Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn sicrhau elw ariannol na manteision sylweddol eraill iddynt eu hunain, eu teulu, neu eu ffrindiau.

### Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu gosod eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol na rhwymedigaeth arall i unigolion neu gyrff allanol a allai ddylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

### Gwrthrychedd

Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau a buddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail teilyngdod.

### Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt dderbyn unrhyw graffu sy'n briodol i'w swyddi.

### Bod yn agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynglŷn â'r holl benderfyniadau a chamau gweithredu maent yn eu cymryd. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau ac ni ddylent gadw gwybodaeth rhag y cyhoedd oni fydd yn amlwg fod hynny er budd y cyhoedd ehangach.

### Gonestrwydd

Mae dyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu'r cyhoedd.

### Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweiniad ac esiampl.

# Atodiad C

## 1. Polisi Cofrestru a Datgan Buddiannau

1.1 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru (Cyngor y Celfyddydau) wedi ymrwymo i atal sefyllfaoedd lle gallai amheuon rhesymol o duedd godi ym meddyliau'r cyhoedd, neu unrhyw ran o'r cyhoedd.

1.2 Rhaid i'r safonau uchaf o briodoldeb ac uniondeb – gwir a chanfyddedig – fod yn gymwys i bob aelod, pob Cydweithiwr Celfyddydol, a phob aelod o'r staff a gyflogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru bob amser. Felly ni all staff y Cyngor gael budd, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall, o unrhyw arian a ddyfarnir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Caiff aelodau o'r Cyngor, a hwythau'n ymddiriedolwyr elusennol, eu hatal rhag elwa'n ariannol yn uniongyrchol o Gyngor y Celfyddydau, oni chaiff hynny ei awdurdodi'n ffurfiol o dan ddeddfwriaeth elusennol.

1.3 Er mwyn bod mor amhleidiol â phosibl, mae Cyngor y Celfyddydau wedi sefydlu dwy weithdrefn fel a ganlyn:

- Cofrestru buddiannau.
- Rheoleiddio cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd.

## 2. Cofrestru buddiannau.

2.1 Mae Cyngor y Celfyddydau yn cynnal dwy Gofrestr Buddiannau – y naill ar gyfer aelodau a'r llall ar gyfer staff. Gellid datgelu copi o'r un neu'r llall wrth ymateb i gais.

2.2 Bydd yn ofynnol i bob aelod o'r Cyngor, ei Bwyllgorau, y Cydweithwyr Celfyddydol (yn rhai sy'n gwneud penderfyniadau neu'n cynghori yn unig) a staff gofrestru eu buddiannau wrth gael eu penodi ac ar ôl hynny ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

2.3 Gall artistiaid sy'n Gydweithwyr Celfyddydol ymgeisio am arian grant Cyngor y Celfyddydau fel unigolion. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, rhaid datgan hyn ac ni chaiff yr unigolion hynny gynghori wedyn ar geisiadau eraill i'r cynllun penodol hwnnw, am gyfnod o dri mis o leiaf ar ôl dyddiad cais yr unigolyn hwnnw. Rhan o'n hymrwymiad i broses dryloyw a chydweithiol o roi grantiau yw cael barn a chynrychiolaeth ehangach o'r sector, yn enwedig o'r cymunedau a dangynrychiolir. Cyflawnwn hyn drwy gael Cydweithwyr yn y cyfarfodydd rhoi grantiau gyda'u harbenigedd allanol a'u profiad personol.

2.4 Lle mae Cydweithiwr Celfyddydol yn gysylltiedig â sefydliad sy'n ymgeisio am arian (er enghraifft, yn aelod o'r bwrdd neu'n gyflogedig yno) ni fydd y Cydweithiwr yn cymryd unrhyw rhan yn y broses asesu ar gyfer y cais. Dilynir Gweithdrefn Datgan Budd y Cyngor.

2.5 Rhaid archwilio'n benodol unrhyw fudd ariannol neu fudd arall neu gysylltiadau personol sy'n codi yn ystod cyfnod y penodiad (neu gyflogaeth yn achos aelodau o'r staff). Os gellid ystyried bod y budd neu gysylltiad hwn yn achos o wrthdaro buddiannau – gwir, posibl neu ganfyddedig – rhwng y dyletswyddau cyhoeddus a budd preifat aelod, Cydweithiwr Celfyddydol neu aelod o'r staff, dylid ei ddatgan.

Fel canllaw, mae'r buddiannau sydd i'w cofrestru fel a ganlyn:

- Cyfarwyddiaethau ac aelodaeth o Fwrdd Ymddiriedolwyr, Cyngor, Pwyllgor Rheoli neu gorff llywodraethu arall unrhyw sefydliad neu gwmni, p'un a yw'n gorfforedig neu wedi'i gyfansoddi mewn rhyw ffordd arall.

- Cyfran ariannol megis perchnogaeth ar dir neu eiddo, dal cyfranddaliadau mewn, neu gyflogaeth neu ymwneud mewn sefydliad sy'n cael cymorth ariannol oddi wrth Gyngor y Celfyddydau (neu y gwyddys ei fod yn bwriadu ceisio cymorth ariannol oddi wrth Gyngor y Celfyddydau), p'un a yw'n gorfforedig neu wedi'i gyfansoddi mewn rhyw ffordd arall.

- Cysylltiadau teuluol agos (boed drwy waed neu berthynas agos arall megis priodas, y gyfraith gyffredin, partneriaeth sifil neu dymor hir) ag unigolyn sy'n cael neu sy'n ceisio cymorth ariannol oddi wrth Gyngor y Celfyddydau, neu ag unigolyn sydd â rhan (naill ai fel rheolwr neu fel cyflogai) mewn sefydliad sy'n cael neu'n ceisio cymorth ariannol oddi wrth Gyngor y Celfyddydau, p'un a yw'n gorfforedig neu wedi'i gyfansoddi mewn rhyw ffordd arall.

2.6 Heblaw am Gydweithwyr sy'n rhan o gyfarfodydd rhoi grantiau, bydd buddiant yn un o'r categorïa uchod yn parhau i fod yn wir am flwyddyn o leiaf ar ôl i'r person ymadael â'r swydd a grewyd y buddiant.

Mae'r cyfnod o flwyddyn o leiaf yn lleihau i dri mis i Gydweithwyr sy'n ymwneud â phenderfyniadau grant, oherwydd ein bod yn eu cynnwys felly am y rhesymau ym Mharagraff 2.3. Caiff eu hatal rhag unrhyw gyfarfodydd grant am 12 mis effaith andwyol ar ein gallu i elwa o'u harbenigedd allanol a'u profiad personol wrth wneud penderfyniadau grant. Hefyd rhaid i Gydweithwyr gofrestru buddiannau wrth ddechrau yn eu gwaith a'u cadarnhau cyn cymryd rhan mewn cyfarfodydd grant. Un o'n staff sydd bob amser yn cadeirio cyfarfodydd ac mae yno gynrychiolaeth gytbwy rhwng staff a Chydweithwyr. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i bawb yno gadarnhau eu datganiad o fuddiant ar ddechrau pob cyfarfod. Ni chymer unrhyw Gydweithiwr ran mewn cyfarfod penderfynu yn y rhaglen y cafodd arian ynddi yn y 3 mis diwethaf. Ni chymer unrhyw aelod o'n staff na Chydweithiwr ran ychwaith mewn cyfarfod penderfynu y maent wedi datgan buddiant ynddo.

Er enghraifft:

- Pe bai Cydweithiwr yn cyflwyno cais i rownd benodol o grantiau, byddai'n rhaid iddo ddiweddaru ei Ddatganiad o Fuddiant. Wedyn ni chymer ran yn yng

nghyfarfodydd penderfynu yn y rhaglen yna am 3 mis. Ond gellid ei gynnwys mewn cyfarfodydd grant o'r rhaglen yna ar ôl 3 mis. Yn yr achosion yna caiff y datganiad ei nodi ond ni fydd yn creu gwrthdaro

- Os oedd aelod o staff wedi ei gyflogi'n flaenorol gan sefydliad sy'n cael neu'n ceisio arian gan Gyngor y Celfyddydau, mae'n ofynnol iddo ddatgan buddiant yn y sefydliad hwnnw am gyfnod o flwyddyn o leiaf ar ôl iddo adael ei gyflogaeth yno.

2.7 Yn yr un modd, os yw aelod o staff yn gadael cyflogaeth Cyngor y Celfyddydau i weithio i sefydliad sy'n cael neu sy'n ceisio arian gan Gyngor y Celfyddydau, bydd buddiant yn dal i fod yn weithredol am gyfnod o flwyddyn o leiaf o'r dyddiad pan ddaeth ei gyflogaeth gyda Chyngor y Celfyddydau i ben.

## 3. Cymryd rhan mewn Cyfarfodydd.

3.1 Mae rhwymedigaeth ar aelodau a staff i ddatgan unrhyw fuddiant neu fuddiannau sy'n dod o fewn yr ystod o fuddiannau a restrir ym mharagraff 2.5 uchod. Rhaid i'r buddiant gael ei ddatgan yr eiliad y daw i'r amlwg y gall fod yn berthnasol i'r pwnc sy'n cael ei drafod.

3.2 Cymryd rhan yng Nghyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgorau a Chyfarfodydd gwneud penderfyniadau:

Cyn cyfarfodydd y Cyngor, bydd rhestr wedi'i hanfon at aelodau yn rhoi manylion buddiannau pob aelod ynghyd â phapurau'r cyfarfod. Yn y cyfarfod felly, nid yw'n ofynnol i'r aelodau ond ddatgan unrhyw fuddiannau sy'n ychwanegol i'r rhai a restrwyd eisoes, i'w cofnodi yn y Gofrestr Buddiannau, a datgan unrhyw fuddiant mewn busnes penodol ar yr agenda. Rhaid gwneud y datganiadau hyn ar ddechrau'r cyfarfod a chânt eu cofnodi hefyd yng nghofnodion y cyfarfod.

Bydd yr un egwyddorion yn gymwys i'n haelodau, ein Cydweithwyr (dan drefniadau paragraff 2.6) a'n staff ym mhob un o gyfarfodydd o bwyllgorau'r Cyngor a'n cyfarfodydd penderfynu.

3.3 Mae Cyngor y Celfyddydau yn dilyn polisi rheoli cofnodion ac amserlen gwaredu a gyhoeddir. Mae ein gwaith cadw cofnodion yn rhoi ystyriaeth i ofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'r arweiniad a gynigir gan yr Archifau Cenedlaethol. Ein polisi cyfredol felly yw cadw'r fath gofnodion am gyfnod o saith mlynedd neu'n hwy os oes angen (e.e. o dan reoliadau'r Undeb Ewropeaidd).

3.4 Lle bo buddiant yn dod o dan un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 2.5, ni fydd yr unigolyn dan sylw yn cymryd unrhyw ran yn y broses benderfynu a bydd yn ymadael ac yn aros y tu allan i ystafell y cyfarfod drwy gydol y drafodaeth. Bydd cofnodion y cyfarfod yn cofnodi datgan y buddiant a'r adegau yr ymadawodd ac yr

ailymunodd yr unigolyn dan sylw â'r cyfarfod. Nid oes angen i unigolyn sydd wedi datgan buddiant ymadael â'r cyfarfod os bydd Cadeirydd y cyfarfod yn dyfarnu bod y mater a godwyd er gwybodaeth yn hytrach nag er mwyn cael penderfyniad ac na fydd unrhyw drafodaeth ar y wybodaeth a roddwyd.

3.5 Yn ddarostyngedig i baragraff 3.5 isod, lle bydd y buddiant a ddatganwyd yn dod o dan un neu ragor o'r tri chategori canlynol:

- cysylltiadau busnes neu gyfeillgarwch personol ag unigolion sy'n ymwneud â sefydliad sy'n cael cymorth ariannol oddi wrth Gyngor y Celfyddydau (neu y gwyddys ei fod yn ceisio cymorth ariannol);

- aelodaeth o sefydliad tebyg lle mae'r corff hwnnw wedi ei wahardd drwy ei gyfansoddiad rhag dosbarthu difidendau neu fuddion ariannol eraill i'w aelodau;

- aelodaeth o sefydliad (megis grŵp 'Cyfeillion') sy'n cefnogi sefydliad o'r fath, ond sydd heb unrhyw gyfrifoldeb drosto

- nodir y datganiad o fuddiant yn y cofnodion ond fel arfer ni fydd gofyn i'r unigolyn dan sylw ymadael â'r cyfarfod nac ymatal rhag pleidleisio neu gyfrannu at y drafodaeth.

3.6 Fodd bynnag, os yw'n ymddangos i Gadeirydd y cyfarfod bod y buddiant sydd wedi ei ddatgan yn ddigon sylweddol i achosi amheuaeth resymol ym meddyliau'r cyhoedd am allu'r unigolyn i wneud penderfyniad diduedd, gall y Cadeirydd ddyfarnu na ddylai'r unigolyn dan sylw gymryd unrhyw ran yn y broses benderfynu ac y dylai fod yn absennol o ystafell y cyfarfod drwy gydol y drafodaeth. Mewn achos o'r fath bydd cofnodion y cyfarfod yn nodi'r adegau yr ymadawodd ac yr ailymunodd yr unigolyn dan sylw â'r cyfarfod. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ar y mater hwn yn derfynol.

# Atodiad D

## Dirprwyo Awdurdod gan y Cyngor i'w Bwyllgorau ac i Grwpiau sy'n Gwneud Penderfyniadau, gan gynnwys Grwpiau Swyddogion a'r Cydweithwyr Celfyddydol

## 1. Awdurdod

1.1 Y Cyngor yw ffynhonnell pob awdurdod ar gyfer camau a gymerir gan Gyngor Celfyddydau Cymru o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan y Siarter Frenhinol, y Ddogfen Fframwaith a'r dogfennau cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r rhwymedigaethau sy'n deillio o'i gofrestru fel elusen.

1.2 O reidrwydd, rhaid i'r Cyngor ddirprwyo awdurdod i'w swyddogion a'r Pwyllgorau mae'n eu penodi i ymdrin ag agweddau penodol ar ei waith. Mae'r memorandwm hwn yn nodi natur a graddau'r dirprwyaethau hynny.

## 2. Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn cadw iddo'i hun yr awdurdod i wneud penderfyniadau ynghylch y canlynol (Gweler hefyd Atodiad i Ddogfen Fframwaith Cyngor y Celfyddydau):

2.1 Ariannol

- cyllideb flynyddol Cyngor y Celfyddydau ac unrhyw newid sylweddol a gynigir i'r gyllideb hon wedi hynny;
- dyraniad blynyddol Cyngor y Celfyddydau o grantiau refeniw, ac unrhyw benderfyniadau i dynnu cymorth grant refeniw yn ôl o unrhyw sefydliad celfyddydol;
- cymeradwyo'r holl grantiau eraill o arian Cymorth grant, arian y Loteri a'r rhai o ran cyfalaf y loteri, fel y'u diffinnir o dan lefelau cytunedig yr Awdurdod Dirprwyedig;
- caffael neu waredu adeiladau rhydd-ddaliad neu brydles;
- penodi a phwerau llofnodwyr pob cyfrif banc a weithredir yn enw Cyngor y Celfyddydau.

2.2 Cynllunio

- Cynllun Corfforaethol Cyngor y Celfyddydau, yn ddarostyngedig i ofynion Llywodraeth Cymru.
- Cynllun Gweithredu blynyddol Cyngor y Celfyddydau.

2.3 Cyffredinol

- ymrwymiadau blynyddol newydd, meysydd newydd o weithgarwch a rhoi'r gorau i weithgareddau presennol lle bo unrhyw un o'r rhain yn berthnasol;
- newidiadau sylweddol yn nulliau gweithredu Cyngor y Celfyddydau;
- cwestiynau sy'n effeithio ar hawliau a rhwymedigaethau'r Cyngor a Chyngor y Celfyddydau o dan y Siarter Frenhinol a'r Ddogfen Fframwaith ac o dan y gyfraith fel y mae'n effeithio ar elusennau;
- cwestiynau sy'n effeithio ar y berthynas rhwng Cyngor y Celfyddydau a'r Llywodraeth;
- materion polisi eang a materion o ddiddordeb gwleidyddol mawr;
- swyddogaeth a ffurf Pwyllgorau Cyngor y Celfyddydau a'r Cydweithwyr Celfyddydol;
- cymeradwyo pwerau dirprwyedig i Grwpiau Gwneud Penderfyniadau.

2.4 Monitro ac arfarnu

- gweithdrefnau ar gyfer monitro ac arfarnu sefydliadau celfyddydol a chynlluniau grant Cyngor Celfyddydau Cymru;
- ystyried adroddiadau arfarnu llawn pob derbynnydd grant mawr a chrynodebau o bob adroddiad arfarnu arall.

2.5 Staff

- newidiadau mawr yn nhelerau ac amodau gwasanaeth staff;
- penodi staff ar lefel Cyfarwyddwr ac uwch a newidiadau mawr i gyfrifoldebau'r lefel honno;
- cydnabyddiaeth o gyrff cynrychioli staff.

## 3. Cyfrifoldebau Pwyllgorau a Grwpiau Gwneud Penderfyniadau

Mae'r Cyngor yn dirprwyo'r cyfrifoldebau canlynol i'w Bwyllgorau a Grwpiau Gwneud Penderfyniadau.

3.1 Ariannol

- cynghori’r Cyngor ynghylch y meysydd gwariant ar y celfyddydau o fewn eu cylch gwaith;

- cymeradwyo trosglwyddiadau cyllideb o fewn y terfynau a nodir yn y Cynllun Dirprwyo;

- cymeradwyo’r holl grantiau eraill o gronfeydd Cymorth Gant, cronfeydd y Loteri a’r rheiny sy’n ymwneud â chyfalaf y Loteri, yn unol â’r lefelau Awdurdod Dirprwyedig presennol.

3.2 Cynllunio

- gwneud cynigion ynghylch datblygiad strategol a materion polisi o fewn cylch gwaith y Pwyllgor fel cyfraniad i Gynllun Corfforaethol Cyngor y Celfyddydau; cyfeirio’n briodol at ofynion Llywodraeth Cymru.

- argymell materion i’w cynnwys yn y Cynllun Gweithredol, o fewn fframwaith polisïau Cyngor y Celfyddydau, i’w cymeradwyo gan y Cyngor.

3.3 Mae’r Cyngor yn penodi ac yn dirprwyo i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y ddyletswydd:

- i helpu i gynnal safonau uchel a phriodoldeb wrth ddefnyddio arian Cyngor y Celfyddydau ac i annog atebolrwydd cywir am y ffordd y defnyddir yr arian hwnnw

- i wella ansawdd adroddiadau ariannol drwy adolygu datganiadau mewnol ac allanol ar ran y Cyngor;

- i hybu hinsawdd o ddisgyblaeth a rheolaeth ariannol gyda'r bwriad o leihau'r cyfleoedd ar gyfer camreolaeth ariannol; ac

- i hybu’r gwaith o ddatblygu systemau rheoli mewnol a fydd yn helpu i fodloni'r Cyngor y bydd yn cyflawni ei brif amcanion a thargedau a’i fod yn gweithredu mewn modd cywir ac effeithlon.

## 4. Swyddogion

4.1 Mae'r Cyngor yn dirprwyo i'r Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth yr Uwch Dîm Arwain, y cyfrifoldeb am weinyddu a rheoli busnes Cyngor y Celfyddydau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys:

- awdurdodau dirprwyedig ar gyfer gwariant gweithredu cyffredinol o fewn yr amcangyfrifon blynyddol a gymeradwywyd;

- awdurdodau dirprwyedig ar gyfer cymeradwyo gwariant ar y celfyddydau, o dan lefelau a ragbennwyd;

- penodi staff islaw swydd y Prif Weithredwr. Yn achos penodi staff uwch, bydd y Prif Weithredwr yn cynnwys aelodau priodol o'r Cyngor yn y broses dethol.

4.2 Mae gan y Prif Weithredwr ddyletswydd hefyd, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, i sicrhau y rhoddir cyngor priodol i'r Cyngor ar bob mater sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol, i gadw cyfrifon cywir ac i ddefnyddio adnoddau mewn modd effeithlon ac effeithiol. Yn y cyswllt hwn mae'r Prif Weithredwr yn agored i gael ei holi ar y materion hyn gan Bwyllgor Archwilio Llywodraeth Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

# Atodiad E

## Arweiniad i Staff – Lletygarwch a Rhoddion

Mae'r Cod Ymarfer Gorau yn nodi'r rheolau ar gyfer Lletygarwch a Rhoddion i staff Cyngor y Celfyddydau.

Caiff rhannau eu hailadrodd isod mewn llythrennau italig ynghyd ag enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gallant fod yn berthnasol. Atodir hefyd restr o gwestiynau penodol a godwyd gan staff ac ymateb Cyngor y Celfyddydau iddynt.

### 1. Lletygarwch

'Lle bo aelodau o'r staff yn ymweld â sefydliad a ariennir gan Gyngor y Celfyddydau (neu un sy'n ceisio cael ei ariannu), ni ddylent gytuno i brydau bwyd gael eu darparu neu eu prynu iddynt. Fodd bynnag, nid oes angen cymryd i ystyriaeth darparu lluniaeth ysgafn fel te a choffi, cinio neu letygarwch sydd wedi'i fwriadu i grŵp ehangach mewn digwyddiadau megis perfformiadau gala neu nosweithiau cyntaf (ac eithrio lle gellid barnu bod lletygarwch o'r fath yn gymhelliad yng nghyd-destun penderfyniadau sydd ar y gweill). Dylai aelodau o'r staff sydd ag amheuon ynghylch derbyn gwahoddiadau i achlysuron o'r fath ymgynghori  â'r Prif Weithredwr.'

'Cedwir cofrestr lletygarwch gan Gyngor y Celfyddydau yn ganolog. Bydd pob aelod o'r staff yn nodi yn y gofrestr yr holl letygarwch a dderbyniwyd, ond nid oes angen i staff gofrestru mân letygarwch fel te, coffi neu luniaeth ysgafn arall a ddarparwyd iddynt fel trefn arferol y gwaith. Dylai pob cofnod yn y gofrestr gynnwys y wybodaeth ganlynol:

enw'r derbynnydd a'i safle yng Nghyngor y Celfyddydau;

enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ddarparodd y lletygarwch;

hyd a lled y lletygarwch a ddarparwyd;

natur yr achlysur pan ddarparwyd y lletygarwch.'

Wrth ymweld â mannau gwaith cleientiaid am gyfarfodydd ac ati, mae'n dderbyniol i dderbyn te, coffi, cinio ysgafn neu bwffe pan fo galw am eich presenoldeb fel aelod o staff Cyngor y Celfyddydau, e.e. cyfarfodydd bwrdd, cyfarfodydd a drefnwyd ar gais Cyngor y Celfyddydau, ac ati. Dylid osgoi ciniawau drud ac alcohol, y gellid eu hystyried yn gymhelliad gan drydydd parti, ond os cyfyd sefyllfa o'r fath dylid ei nodi yn y gofrestr lletygarwch.

## 2. Rhoddion

‘Ni all aelodau o’r staff dderbyn rhoddion o unrhyw fath mewn unrhyw amgylchiadau. Byddai hyn yn cynnwys rhoddion oddi wrth unigolyn neu sefydliad a ariennir gan Gyngor y Celfyddydau, rhoddion oddi wrth unigolyn neu sefydliad sy’n ceisio arian, rhoddion oddi wrth gyflenwr sy’n ceisio contract neu roddion a roddir fel cildwrn am unrhyw reswm. Fodd bynnag, ni fydd y canlynol yn cael eu hystyried yn rhoddion:

A. Darparu tocynnau am ddim i ddigwyddiadau y mae gan yr aelod o’r staff dan sylw ddiddordeb proffesiynol ynddynt.

B. Er ei bod yn dderbyniol darparu rhagor o docynnau i ganiatáu i bartner yr aelod o’r staff, ac ar gyfer digwyddiadau priodol, plant yr aelod, fod yn bresennol; ni ddylai’r staff dderbyn tocynnau am ddim i grwpiau mwy o berthnasau neu ffrindiau.

C. Mae rhaglenni, catalogau, gwrthrychau coffaol ac eitemau tebyg yn dderbyniol naill ai lle cânt eu dosbarthu i gynulleidfa eang mewn digwyddiad dathlu neu pan gânt eu derbyn ar ran Cyngor y Celfyddydau fel tystiolaeth o safon gwaith y sefydliad.’

Argymhellir na ddylid derbyn y mathau o eitemau a ddisgrifir yn C uchod ond os ydynt yn werth £10.00 neu lai.

Os yw’n briodol, dylai staff roi eitemau megis poteli o win neu focsys o siocledi i rafflau a drefnir yn achlysurol i godi arian i elusen.

Fel rheol cyffredinol, dim ond ar gyfer digwyddiadau a ariennir gan Gyngor y Celfyddydau y dylai staff dderbyn tocynnau. Dylid cyfyngu’r rhain i ddau docyn i bob aelod o staff.

Ni ddylid derbyn tocynnau i unrhyw ddigwyddiad arall oni fyddwch yn ei fynychu yn eich rhinwedd broffesiynol fel aelod o Gyngor y Celfyddydau a bod angen eich barn, neu os ydych yn defnyddio’r digwyddiad i farnu ansawdd gwaith y sefydliad/unigolyn. Fel arfer byddai hynny’n golygu llunio adroddiad asesu ansoddol.

# Atodiad F

## Cyngor Celfyddydau Cymru – Y Weithdrefn Gwyno

## Cyflwyniad

Mae'r gweithdrefnau yn yr adran hon yn sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru (Cyngor y Celfyddydau) yn gallu ymateb yn briodol i gŵynion. Mae holl ddosbarthwyr arian y loteri yn y DU yn defnyddio'r weithdrefn hon. Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i'n cyflogeion, aelodau ein Cyngor, ein Pwyllgorau a'r Cydweithwyr Celfyddydol, ac i bob agwedd ar ein gwaith, nid arian y loteri yn unig.

Ni fydd gwneud cwyn yn effeithio ar lefel y gwasanaeth a gewch gennym ni mewn unrhyw ffordd. Er enghraifft, os yw eich cwyn yn ymwneud â chais am gyllid, ni fydd hyn yn effeithio ar eich gobeithion o gael grant gennym ni yn y dyfodol.

## Beth allaf gwyno amdano?

Gallwch gwyno os credwch:

- bod 'camweinyddu' wedi digwydd (er enghraifft, os ydym wedi oedi, gwneud camgymeriadau neu fethu â dilyn y gweithdrefnau yn ein proses ymgeisio);
- ein bod wedi methu â rhoi mynediad at wybodaeth i chi neu wedi rhoi cyngor neu wybodaeth anghywir i chi;
- nad ydym wedi eich trin yn gwrtais; neu
- ein bod wedi gwahaniaethu yn eich erbyn neu nad ydym wedi eich trin yn deg.

Os yw eich cwyn yn ymwneud â chais am gyllid, ni allwn ail-ystyried eich cais ond os:

- byddwn yn darganfod (drwy ymdrin â chwyn) nad oeddem wedi dilyn y gweithdrefnau cyhoeddedig wrth asesu eich cais;
- gallwch ddangos ein bod wedi camddeall rhan sylweddol o'ch cais; neu
- gallwch ddangos nad oeddem wedi cymryd sylw o wybodaeth berthnasol.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth, gallwch gysylltu â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol (mae ei manylion cyswllt ar gael mewn llyfrau ffôn neu ar www.citizensadvice.org.uk).

Byddwn yn cadw pob cwyn yn gyfrinachol. Os byddwch yn gwneud cwyn, byddwn yn eich trin â pharch, ac rydym yn disgwyl i chi drin ein staff yn yr un ffordd.

## Yr hyn na allwch gwyno amdano

Efallai y byddwch yn siomedig os byddwn yn gwrthod eich cais am gyllid, ond ni allwch ddefnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn ein penderfyniad ynglŷn â rhoi grant os ydym wedi dilyn ein proses benderfynu yn gywir.

Os ydych yn dymuno cwyno am rywun neu rywbeth rydym efallai wedi'i ariannu, gweler ein gwefan am ragor o fanylion ynghylch sut i wneud hyn.

Ni allwch gwyno am ein polisïau cyhoeddedig neu unrhyw bolisi llywodraethol.

Os oes gennych unrhyw sylwadau am ein polisïau, dylech eu hanfon at ein Prif Weithredwr.

Peidiwch â defnyddio'r weithdrefn gwyno hon i wneud cwyn am unrhyw dwyll yr ydych yn amau ei fod wedi digwydd. Dylech roi gwybod am hyn drwy ysgrifennu naill ai at ein Prif Weithredwr neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Gweler yr adran Cysylltu ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Sut ydw i'n gwneud cwyn?

### Cam un

Os nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth yr ydych wedi'i gael, cysylltwch â'r adran neu'r aelod o staff oedd yn ymdrin â chi yn y lle cyntaf, cyn pen 3 mis ar ôl y weithred neu'r penderfyniad y mae'r gŵyn yn cyfeirio ato. Byddant yn ceisio unioni pethau. Efallai na fyddwch yn siŵr pa wybodaeth y dylid ei chynnwys nac am y ffordd orau i nodi eich cwyn. Dylech nodi'r ffeithiau mor glir â phosibl, mewn trefn resymegol, a chynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Yn gryno, beth yw natur y gŵyn
- Pryd y digwyddodd
- Pwy oedd yn ymdrin â'r mater yn wreiddiol
- Yr hyn yr hoffech iddo ddigwydd i unioni'r sefyllfa

Cofiwch gynnwys manylion a dyddiadau pwysig lle bo modd. Gallwn roi gwybodaeth i chi ynglŷn â sut y byddwn yn prosesu eich cwyn. Gobeithiwn y byddwn yn gallu datrys cwynion cyn gynted â phosibl yn y modd hwn. Rhoddir ein manylion cyswllt yn yr adran 'Cysylltu' ar ddiwedd y ddogfen hon.

### Cam dau

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch, gallwch fynd â hyn ymhellach drwy gysylltu â'n Prif Weithredwr: corfforaethol@celf.cymru

Dywedwch wrthym:

- beth ddigwyddodd;
- pryd y digwyddodd;
- pwy oedd wedi ymdrin â chi; ac
- yr hyn yr hoffech inni wneud i unioni'r sefyllfa.

Lle mae'r gŵyn yn ymwneud â chais am gyllid ac yn dod o fewn y canllawiau a nodir uchod, bydd hefyd angen copïau o'r wybodaeth ganlynol:

- Y cais gwreiddiol i ni am gyllid
- Unrhyw ddogfennau neu ddeunyddiau eraill a amgaewyd gyda'r cais
- Y llythyr penderfyniad a gafwyd oddi wrthym ni
- Unrhyw lythyrau neu ddogfennau eraill a anfonwyd gan y naill ochr neu'r llall mewn perthynas â'r cais

Dywedwch wrthym hefyd os oes unrhyw beth y mae angen i ni ei wybod ynglŷn â sut i gysylltu â chi. Rhaid i chi wneud hyn cyn pen pedair wythnos ar ôl cael ein hymateb i gam un.

Os na allwch wneud eich cwyn yn ysgrifenedig, ffoniwch ni ar 03301 242733.

## Pryd fyddaf i'n clywed gennych chi?

Cyn pen tri diwrnod gwaith ar ôl cael eich cwyn, byddwn yn ysgrifennu atoch neu'n eich ffonio i ddweud bod y gŵyn wedi dod i law. Byddwn hefyd yn dweud wrthych sut i gysylltu â'r person sy'n ymdrin â'ch cwyn a phryd y gallwch ddisgwyl ateb.

Byddwch yn cael ateb i'ch cwyn cyn pen 10 diwrnod gwaith. Os na allwn roi ateb llawn o fewn yr amser hwn, byddwn yn dweud wrthych pam a phryd yr ydych yn debygol o'i gael.

Efallai y byddwn yn gofyn ichi ddod i gyfarfod gyda ni i drafod eich cwyn yn fwy manwl. Byddai'r cyfarfod hwn fel arfer yn cael ei gynnal cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i'ch cwyn ddod i law. Byddem yn anfon cofnod ysgrifenedig o'r cyfarfod atoch ac ateb ffurfiol i'ch cwyn oddi wrth ein Prif Weithredwr. Bydd y gŵyn a'r canlyniad yn cael eu cofnodi.

Os yw eich cwyn yn ymwneud â'r ffordd yr ydym wedi defnyddio ein pwerau i wneud, gwrthod neu reoli cyllid, gallwch wedyn symud ymlaen at gam tri. Os yw eich cwyn yn ymwneud â'r ffordd yr ydym yn cynnal unrhyw agwedd arall ar ein busnes, byddwn yn rhoi gwybod i chi am opsiynau eraill a allai fod yn agored i chi. Yn ein hymateb i gam dau, byddwn yn dweud wrthych a yw cam tri yn agored i chi.

### Cam tri

Os nad ydych yn fodlon ar ateb ein Prif Weithredwr, gallwch gyfeirio eich cwyn at yr Adolygydd Cwynion Annibynnol (ACA).

Mae'r Adolygydd yn ddiduedd a bydd yn gwrando ar ddwy ochr y gŵyn.

Nid yw'r Adolygydd yn rhan o'n sefydliad ac mae ei ymchwiliadau a'i argymhellion yn annibynnol. Gallwch chi ofyn i'r Adolygydd ystyried eich cwyn, neu gall ein Prif Weithredwr ofyn iddo wneud hynny. Ni chodir tâl am ddefnyddio'r Adolygydd. Bydd swyddfa'r Adolygydd yn cysylltu â chi cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl i'ch cwyn ddod i law.

Mae gan yr Adolygydd y pŵer i benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn ai peidio, a bydd yn esbonio ei resymau os yw'n penderfynu peidio ag ymchwilio iddi.

Os yw'r Adolygydd yn ymchwilio i'ch cwyn ac yn penderfynu bod cyfiawnhad drosti, bydd yn argymell ffyrdd inni unioni pethau, a sut i atal sefyllfa debyg rhag codi yn y dyfodol. Bydd yr Adolygydd yn adrodd cyn pen tri mis, ac yn gynt fel arfer. Fel arfer, byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau mae'r Adolygydd yn eu hargymell i'n gweithdrefnau presennol cyn gynted ag sy'n bosibl.

Ni all yr Adolygydd ystyried cwynion sydd heb fynd trwy'r weithdrefn a nodir yn y ddogfen hon. Os hoffech i'r Adolygydd ystyried eich cwyn, rhaid gwneud hyn cyn pen pedair wythnos ar ôl cael ateb oddi wrth ein Prif Weithredwr.

Ni all yr Adolygydd wrthdroi penderfyniadau ariannu neu wneud sylwadau ar neu newidiadau i'n cyfrifoldebau cyfreithiol a'n polisïau ar ddyfarnu grantiau.

Os ydych yn dymuno mynd ymlaen at Gam 3, cysylltwch â llywodraethu@celf.cymru a byddwn yn gwneud y trefniadau ar eich rhan.

## Ffyrdd eraill o wneud cwyn

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i gŵynion gan aelodau o'r cyhoedd sydd wedi dioddef anghyfiawnder oherwydd camweinyddu gan sefydliadau cyhoeddus.

O dan y gyfraith, mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r gwasanaeth sifil, ac mae ganddo bwerau eang i ymchwilio.

Nid yw'r Ombwdsmon fel arfer yn ymchwilio i gŵynion os nad ydynt wedi bod trwy ein gweithdrefnau cwyno yn gyntaf.

Mae gwasanaethau'r Ombwdsmon ar gael am ddim.

Gallwch gael taflen esboniadol am yr Ombwdsmon – gweler 'Cysylltu' ar ddiwedd y ddogfen hon.

Adolygiad barnwrol

Mae adolygiad barnwrol yn golygu y bydd barnwr yn archwilio'ch cwyn i weld a ydym wedi ymddwyn yn anghyfreithlon. Ni all y barnwr ddyfarnu bod rhaid i ni newid penderfyniad ariannu, ond gall ofyn i ni ailystyried ein penderfyniad.

Cwynion am yr iaith Gymraeg

Caiff cwynion ynghylch materion Cymraeg eu trin yn y lle cyntaf gan ein Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg.

- Dylid cyfeirio cwynion mewn ysgrifen at Gadeirydd y Grŵp, gan nodi 'cyfrinachol' arnynt.
- Byddwn yn ysgrifennu atoch cyn pen 3 diwrnod gwaith ar ôl i'ch cwyn ddod i law, yn cydnabod eich cwyn ac yn rhoi gwybod ichi y caiff ei hystyried yng nghyfarfod nesaf y Grŵp. Lle bo'n bosibl, cynhelir y cyfarfod cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ddod i law. Os na fydd hyn yn ymarferol, byddwn yn rhoi gwybod ichi am y rheswm pam ac yn rhoi dyddiad.
- Yn y cyfarfod, bydd y Grŵp yn penderfynu a fydd y gŵyn yn cael ei chadarnhau, ac a gaiff unrhyw gamau eu cymryd. Bydd cadeirydd y Grŵp yn rhoi gwybod ichi am y penderfyniad yn ysgrifenedig.
- Bydd y gŵyn a'r canlyniad yn cael eu cofnodi gan y Grŵp er mwyn sicrhau dilyniant os eir â'r broses ymhellach.
- Os ydych yn anfodlon â'r canlyniad, gallwch ofyn i'n Huwch Dîm Arwain (UDA) ystyried y mater.
- Os yw'r cwynydd, yn dilyn adolygiad yr UDA, yn dal i fod yn anfodlon â'r canlyniad, mae ganddo hawl i fynd at Gomisiynydd y Gymraeg, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r Adolygydd Cwynion Annibynnol, fel y nodir uchod yng Ngham Tri o'r Weithdrefn Gwyno.
- Caiff canlyniad yr Adolygiad Annibynnol ei gofnodi gan y Grŵp er mwyn sicrhau cysondeb, rhag ofn yr eir â'r broses ymhellach (gweler Adolygiad Barnwrol).

### Rhyddid gwybodaeth

Mae ein cynllun cyhoeddi'n rhoi manylion ynghylch pa wybodaeth yr ydym yn caniatáu i'r cyhoedd ei gweld fel mater o drefn.

Os ydych chi eisiau gwybodaeth nad ydym yn ei chynnwys yn ein cynllun cyhoeddi, mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl i chi ofyn i ni amdani. O dan y Ddeddf, rhaid i ni ddarparu'r wybodaeth y gofynasoch amdani i chi oni fydd heb ei chynnwys o dan y Ddeddf (hynny yw, ei bod wedi'i 'hesemptio'). Os yw'r wybodaeth yr ydych ei heisiau wedi'i hesemptio, rhaid i ni esbonio pam.

Os nad ydych yn cytuno â ni, dylech ddilyn camau un a dau o'r gweithdrefnau a nodir yn y ddogfen hon. Os ydych yn anfodlon o hyd, gallwch ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth adolygu ein penderfyniad.

Mae copi o'n cynllun cyhoeddi ar gael drwy fynd i www.celf.cymru neu drwy ffonio 03301 242733.

I gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler 'Cysylltu' ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Eich gwybodaeth bersonol

Os ydych yn defnyddio ein gweithdrefn gwyno, rydych yn cytuno ein bod yn gallu defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol yr ydych yn ei hanfon atom at ddibenion sy'n gysylltiedig â'ch cwyn. Gallwn hefyd roi eich gwybodaeth bersonol i bobl a sefydliadau eraill os oes yn rhaid i ni wneud hynny o dan y gyfraith neu os ydych wedi rhoi caniatâd i ni.

## Cyfle Cyfartal

Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac rydym yn cymryd cwynion ynglŷn â gwahaniaethu o ddifrif.

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio cwynion ynglŷn â gwahaniaethu i adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn trin pawb yn gyfartal.

Mae'n bosibl y byddwn yn cofnodi gwybodaeth am gefndir ethnig, rhyw ac anabledd pawb sy'n gwneud cwyn er mwyn hybu a chynnal ein hymrwymiad i gyfle cyfartal. Byddwn yn cadw'r holl wybodaeth yn gyfrinachol.

## Sylwadau ac awgrymiadau

Rydym yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau gan eu bod yn gallu'n helpu ni i wella ein gwasanaethau. Anfonwch unrhyw sylwadau neu awgrymiadau at y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r manylion cyswllt yn yr adran 'Cysylltu'.

## Cysylltu

Gallwch gysylltu â'n Prif Weithredwr:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd CF10 5AL

Gwefan: www.celf.cymru

Ffôn: 03301 242733

E-bost: Corporate@arts.wales

Mae cyfeiriadau ein holl swyddfeydd ar gael ar ein gwefan, neu drwy ffonio 03301 242733. Gallwch wneud ymholiadau cyffredinol ar y rhif hwn hefyd.

I gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, anfonwch neges e-bost at CadeiryddPwyllgorArchwilio@celf.cymru

Gyda chwynion yn ymwneud â materion Cymraeg, gallwch gysylltu â:

## Comisiynydd y Gymraeg

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

Ffôn: 0345 6033 221

E-bost: post@welshlanguagecommissioner.wales

I gael gwybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gallwch gysylltu â

## Y Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

https://ico.org.uk/make-a-complaint/

Mae taflen esboniadol am yr Ombwdsmon ar gael oddi wrth:

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: ask@ombudsman.wales